north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# PARTNERIAETH SGILIAU RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU ADRODDIAD BLYNYDDOL 2018

Mae'r adrannau canlynol yn ymateb i ganllawiau Llywodraeth Cymru sy'n cyflwyno'r gofynion ar gyfer yr adroddiad, a bod angen i gynnwys penodedig y ddogfen fod tua 30 tudalen o hyd.


| **Adran:** | **Tudalen Rhif:** |
|---|---|
| **Adran 1: Rhagarweiniad** | 3 |
| **Adran 2: Blaenoriaethau ar gyfer y Rhanbarth** | 4 |
| **Adran 3: Prif Lwyddiannau a Chynnydd ers 2017** | 5 |
| **Adran 4: Aelodaeth a Llywodraethu** | 6 |
| **Adran 5: Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr** | 7 |
| **Adran 6: Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid** | 9 |
| **Adran 7: Cymorth ar gyfer Bargen Twf y Gogledd** | 11 |
| **Adran 8: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | 12 |
| **Adran 9: Deall y Farchnad Lafur** | 13 |
| **Adran 10: Brexit** | 14 |
| **Adran 11: Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd** | 16 |
| **Adran 12: Addysg Bellach a Phrentisiaethau** | 18 |
| **Adran 13: Cronfa Datblygu Sgiliau** | 20 |
| **Adran 14: Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau** | 21 |
| **Adran 15: ESF** | 22 |
| **Adran 16: Data Cyflogadwyedd a Rhanbarthol i oleuo Cymru'n Gweithio** | 23 |
| **Adran 17: Awdurdodau Lleol ac Ysgolion** | 24 |
| **Adran 18: Addysg Uwch** | 25 |
| **Adran 19: Tueddiadau a Heriau Galwedigaethol (Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol)** | 27 |
| **Adran 20: Twf Gwyrdd** | 29 |
| **Adran 21: Yr Iaith Gymraeg** | 29 |
| **Adran 22: Casgliadau ac Argymhellion** | 30 |

## Adran 1: Rhagarweiniad

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n parhau i fod â nod clir o gefnogi ein partneriaid i ddarparu cyfleoedd economaidd rhanbarthol, ac o godi uchelgais ymhlith holl gohortau ein marchnad lafur bresennol a disgwyliedig, yn bennaf i gefnogi Gweledigaeth Dwf Gogledd Cymru.

Y rhaglen sy'n cyflawni rhan o'r Weledigaeth hon yn ein rhanbarth yw Bargen Twf y Gogledd sydd ar hyn o bryd yn cael ei datblygu'n fanwl i hyrwyddo 5,000 o swyddi newydd yn y rhanbarth, drwy Gais cyfunol gwerth £1.3 biliwn.

Ni fydd y rhestr bresennol o gynigion prosiect, sy'n cael eu cyflawni a'u harwain gan ein partneriaid rhanbarthol, i gyd yn cael eu cynnwys yn y Cais. Fodd bynnag gallai prosiectau nad ydynt yn cael eu hariannu drwy'r Fargen Dwf, ac sy'n hyrwyddo sgiliau a datblygiadau cyflogaeth, dderbyn cyllid yn y dyfodol drwy ffrydiau eraill gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU; gan gynnwys y gronfa ffyniant gyffredin arfaethedig a ddaw yn lle'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd.

Mae'r heriau a ddisgrifiwyd yng Nghynllun 2017 ar gyfer ein rhanbarth yn parhau, ond gyda hyrwyddo a dadansoddi mwy manwl maen nhw'n cael eu hateb yn y tymor byr a hirach. Maen nhw'n cynnwys problemau'n ymwneud â galw am weithwyr yn lle'r cohortau presennol sy'n heneiddio; y galw am sgiliau cyfnewid wrth i weithwyr symud at gyfleoedd cyflogaeth mawr, sydd wedi'i ddarogan; ateb y broblem o gadw sgiliau lefel uwch yn y rhanbarth; a chefnogi'r cydbwysedd rhwng hygyrchedd a sgiliau lefel mynediad i rai nad ydynt yn y farchnad lafur ar hyn o bryd, hyn oll gyda thirlun cyflogaeth sy'n tyfu'n gynyddol fwy digidol ymwybodol.

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n parhau i arwain a hwyluso datblygu mewn partneriaeth â'r holl ddarparwyr a chyflogwyr allweddol a'r cyrff sy'n cynrychioli diwydiant ar draws y rhanbarth, gyda'r nod cyffredin o ddatblygu a chadw marchnad lafur ffyniannus a chynaliadwy sy'n dod yn gynyddol fwy cynhyrchiol, fel rhan o'r Cais a'r Weledigaeth ehangach.

Mae ymdrechion gwirioneddol yn cael eu gwneud yn y Gogledd i gydweithredu ar draws pob sector a safle gwerthu, gan adeiladu ar esiampl y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, i helpu i hyrwyddo rhanbarth sy'n cyflawni ar economi'r dyfodol. Drwy weithio mewn partneriaeth, cyrchwn at y nod o gau'r bylchau cymwysterau a sgiliau rhwng Gogledd Cymru ac Ewrop i greu rhanbarth lle mae twf economaidd yn cael ei bweru gan sectorau economaidd gwerth uchel arloesol.

O ddarparu'r adroddiad rhanbarthol cyntaf ar Sgiliau Iaith Gymraeg yn yr Economi yn Ebrill 2018; i'r ymdrechion parhaus i ehangu a hyrwyddo ein rhaglen CAMAU STEM gyda chyflogwyr ym mhob un o'r 360+ o ysgolion cynradd ar draws y Gogledd; i benderfyniad diweddar WEFO i gymeradwyo ein prosiect 'STEM y Gogledd'; i barhau i weithio ers 2014, gan weithio mewn partneriaeth â rheolwyr yn ein colegau i ddylanwadu a chyfarwyddo'r cwricwlwm; gan weithio'n uniongyrchol â chyflogwyr a phrosiectau o bwysigrwydd rhanbarthol fel Wylfa Newydd i ddadansoddi effaith sgiliau yn y farchnad lafur; i gefnogi gwasanaethau brocera cyflogaeth ar sail ein llwyddiannau blaenorol; mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol drwy ei phartneriaid oll yn rhan bwysig a chefnogol o'n holl allbwn.

Mae pob un yn gweithio gyda'i gilydd i greu tirlun sgiliau a chyflogaeth deallus a gwydn sydd wedi'i gysylltu i ddatblygiadau digidol a dyheadau economaidd ehangach Gogledd Cymru, gan adlewyrchu bod ein marchnad lafur yn symud y tu hwnt i ffiniau naturiol a phresennol ein rhanbarth.

## Adran 2: Blaenoriaethau ar gyfer y Rhanbarth

Mae Gogledd Cymru, drwy'r Bwrdd Uchelgais Economaidd, wedi datblygu un weledigaeth gydgysylltiedig ar gyfer twf economaidd a chyflogaeth ac mae sgiliau'n rhan allweddol o hyn; gyda'r holl bartneriaid wedi ymrwymo i weithio'n gydweithredol gyda'i gilydd i gyrchu at nod cyffredin sy'n adeiladu ar waith presennol grwpiau cyfunol fel y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Cytunwyd bod angen canolbwyntio mwy ar "dwf cynhwysol" gan fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac afreoleidd-dra cymdeithasol a gofodol yn y rhanbarth. Bydd angen i dwf fod yn wasgarog a mwy ymatebol, gyda chynnydd mewn sgiliau lefel uwch a mynediad gwell o ran gallu ymuno a dringo'n uwch yn ein marchnad lafur, yn unol â blaenoriaethau Cynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru a'n hymrwymiad o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Mae uchelgais clir bod y rhanbarth yn lleoli ei hun fel un o'r ardaloedd sy'n arwain y Deyrnas Unedig ar gynhyrchu ynni ac uwch-weithgynhyrchu – gan hefyd ddod yn ganolbwynt ar gyfer arloesi ac arbenigedd technolegol a chanolfan ragoriaeth ar gyfer twristiaeth o werth uchel. Mae'r uchelgais hwn i ddarparu'r sgiliau a'r cyfleoedd cyflogaeth hyn yn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd sydd eisoes yn bodoli ar draws Gogledd Cymru, a bydd cyflawni hyn yn creu dull mwy cynaliadwy a chytbwys o gefnogi ein cymunedau, ein heconomi a'n marchnad lafur ar ôl Brexit; ac mewn ymateb i brosiectau mawr o arwyddocad cenedlaethol fel Wylfa Newydd a'i effaith ar gadwyni cyflenwi a llafur.

Fel is-grwp ymroddedig o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn gweithio'n galed i gyfrannu at a chefnogi datblygiad y Weledigaeth Dwf gychwynnol a'i thri nod allweddol sydd, yn eu tro, wedi goleuo ffocws ein Bargen Dwf:

**Y Gogledd Clyfar –** gyda ffocws ar arloesi mewn sectorau economaidd gwerth uchel i wella perfformiad economaidd;

**Y Gogledd Gwydn –** gyda ffocws ar gadw ein pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau i sicrhau twf cynhwysol;

**Y Gogledd Cysylltiedig –** gyda ffocws ar wella'r seilwaith trafnidiaeth a digidol i wella cysylltedd strategol i mewn ac oddi mewn i'r rhanbarth.

Bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn parhau i eiriol dros ein nodau blaenorol a pharhaus gan weithio o fewn a'r tu allan i'r rhanbarth, fel bo angen, i gefnogi ein marchnad lafur gynyddol fwy symudol, ein cyflogwyr, ein darparwyr a phob partner lleol, rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol.

Fel gyda'n Cynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth blaenorol, ein prif sectorau ffocws o hyd yw 'Ynni a'r Amgylchedd', 'Uwch-Ddeunyddiau ac Uwch-Weithgynhyrchu', ac 'Adeiladu'; gyda sectorau twf ffocws y rhanbarth hefyd yr un fath sef 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol', 'Twristiaeth a Lletygarwch', 'Bwyd a Diod', 'Creadigol a Digidol' ac 'Ariannol a Phroffesiynol'.

Mae'r nodau a'r dyheadau sy'n ffactorau galluogi allweddol ar gyfer ein hymdrechion parhaus i hyrwyddo hygyrchedd, cynhwysiant a llwybrau at gyfleoedd ar gyfer ein gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol, yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| Parhau i gefnogi Prentisiaethau fel ffactor galluogi, gan symud tuag at Brentisiaethau Gradd a lefel uwch lle bo hynny'n berthnasol | Parhau i weithio mewn ymateb i'r galw gan gyflogwyr i ddarparu mwy o sgiliau cyflogadwyedd a phrofiad galwedigaethol ar gyfer pobl ifanc |

| | |
|---|---|
| Hyrwyddo ymhellach bod angen sgiliau digidol a thechnolegau galluogi Diwydiant 4.0 i gefnogi holl sectorau allweddol a sectorau twf y rhanbarth | Parhau i hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd i'r economi drwy gefnogi'r iaith Gymraeg mewn lleoliadau addysg a chyflogaeth |
| Datblygu a chyfrannu mewnbwn pellach i'n gwaith ar gefnogi'r cwricwlwm addysg newydd i ddangos cysylltedd i anghenion sgiliau'r dyfodol | Parhau i fod yn frocerwr gonest sy'n dod â chyflogwyr, darparwyr a phartneriaid perthnasol at ei gilydd i gyflawni nodau cenedlaethol a rhanbarthol |

## Adran 3: Prif Lwyddiannau a Chynnydd ers 2017

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n parhau i ddarparu canlyniadau clir fel rhan o ymdrechion i ddarparu ein nodau a'n hamcanion, gan gefnogi cyflogwyr a phartneriaid darparu o bob cohort i hyrwyddo sgiliau cynaliadwy a chyfleoedd cyflogaeth.

Yn gryno felly, yn y flwyddyn ddiwethaf mae ein llwyddiannau'n cynnwys y canlyniadau isod:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Gyda phartneriaid, wedi trefnu'r digwyddiad Rhwydwaith Seren ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed abl a thalentog, i hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a gyrfaol yng Ngogledd Cymru. | Wedi datblygu, cyhoeddi a lansio'r adroddiad "Yr Iaith Gymraeg yng Ngogledd Cymru" drwy weithio gyda chyflogwyr, darparwyr a chyrff cenedlaethol, gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg. | Wedi cyflwyno, ochr yn ochr ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, ac arweinwyr rhanbarthol, y sgiliau sydd yma'n barod i gefnogi lleoli Canolfan Logisteg Heathrow yng Ngogledd Cymru. |  | Wedi ein comisiynu gan Fwrdd Parth Menter Môn i ddatblygu rhaglen sgiliau bwrpasol i gefnogi rhagoriaeth yn y sector Twristiaeth a Lletygarwch ar sail y rhaglen CAMAU STEM. |
|  | Yn parhau i weithio'n uniongyrchol gyda GwE ac ysgolion ar draws y rhanbarth, i gefnogi datblygu'r cwricwlwm cenedlaethol newydd i Gymru, a hyrwyddo ei gysylltu i'r economi a'r galw am sgiliau yn y dyfodol. | Mae'r RSP yn parhau i gyfrannu mewnbwn a chefnogi datblygu prosiectau fel rhan o raglen ehangach Bargen Twf y Gogledd a Bwrdd Uchelgais Economaidd newydd wedd Gogledd Cymru. | Ni yw'r unig RSP i gael ein gwahodd i gyflwyno i gynadleddau cenedlaethol fel y Gynhadledd Addysg Oedolion; Bwyd a Diod Cymru; a hefyd i rannu arferion gorau gyda chyrff rhanbarthol eraill fel Bwrdd Addewid Caerdydd. | Yn parhau i gefnogi a bod yn rhan o'r rhaglen cyflogadwyedd PROFI ym Mhrifysgol Bangor, i hyrwyddo sgiliau a chyfleoedd y dyfodol ar gyfer pobl ifanc yn y rhanbarth. |
| Mae RSP Gogledd Cymru wedi cynnal trafodaethau â phartneriaid eraill drwy Gymru, wedi'u hwyluso gan y Sefydliad Dysgu a Gweithwyr, i ddatblygu a chyflwyno Wythnos genedlaethol Addysg Oedolion Cymru. | Wedi trefnu a chynnal 'Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau' cyntaf Cymru, lle'r oedd y Gweinidog Eluned Morgan AC yn bresennol ar ran Llywodraeth Cymru, yma yn y Gogledd. |  | Yn parhau i weithio'n agos gyda, ac i gefnogi sefydliadau cenedlaethol fel Ymddiriedolaeth y Tywysog yng Nghymru, i ddarparu dulliau cyson a chyffredin o gyflwyno sgiliau i bobl ifanc. | Yn hyrwyddo a chynnal Calendr Digwyddiadau Sgiliau Rhanbarthol, ar-lein ac ar gael i bawb, ar gyfer partneriaid a'r cyhoedd; wedi hyrwyddo digwyddiadau sgiliau ar gyfer busnesau ac unigolion. |
| Yn gweithio gyda CITB Cymru i gyflawni dadansoddiad ar y cyd o'r sgiliau sydd eu hangen ar y diwydiant adeiladu ar draws y Gogledd, mewn ymateb i'r galw disgwyliedig am gyflogaeth ar gyfer Wylfa Newydd. | Yn hyrwyddo cyfleoedd prentisiaeth ar draws y rhanbarth drwy weithio gyda chyflogwyr a darparwyr i ganfod atebion i'r galw am anghenion a gwneud y mwyaf o gyfleoedd brocera. | Mewn partneriaeth â chyflogwyr a Gyrfa Cymru, wedi arwain ar gyfres ar-lein o adnoddau i hyrwyddo'r sgiliau cyflogadwyedd sy'n berthnasol i'n rhanbarth. | Yn parhau i gyfrannu mewnbwn, cefnogi a chyfarwyddo llawer o'n prosiectau sgiliau ESF rhanbarthol i helpu i gynnal cysondeb a ffocws ac y darperir hwynt yn unol ag anghenion sgiliau rhanbarthol ehangach a dysgu gydol oes. | Yn parhau i weithio'n agos â'r ddau sefydliad Addysg Bellach yn y rhanbarth, gan gynnwys â phob rheolwr cwricwlwm i 'brawfesur' cynigion cwricwlwm rhanbarthol yn erbyn anghenion y dyfodol, ar sail ein Cynllun Sgiliau Rhanbarthol. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Wedi llwyddo i ennill nawdd a chyllid preifat gan Siemens ac Airbus i barhau i ddatblygu ein rhaglen CAMAU STEM yn y sector ysgolion uwchradd. | Wedi hyrwyddo sut y mae'r RSP yn llwyddo i weithio mewn partneriaeth i gefnogi arolygon Estyn o awdurdodau addysg unigol, ac o golegau AB yn y rhanbarth. | Wedi gweithio gyda chydweithwyr rhanbarthol i lunio ymateb Gogledd Cymru i'r ymgynghoriad ar gyllid i Gymru ar ôl Brexit, gan adnabod problemau sgiliau posib, yn enwedig o fewn ein heconomi sylfaenol. | Yn parhau i weithio'n agos â LlC i helpu i oleuo a chefnogi datblygu polisïau cyflogadwyedd a sgiliau cenedlaethol, i helpu i'w cysoni ag anghenion rhanbarthol a darpariaeth leol ar draws y Gogledd. |  |

## Adran 4: Aelodaeth a Llywodraethu

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n parhau i hyrwyddo ei strwythur a'i haelodaeth ym mhob un o'i Chynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol blynyddol.


Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n parhau i fod yn is-grŵp o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, ac o fewn y trefniadau newydd sy'n cael eu hyrwyddo fel rhan o Fargen Twf y Gogledd, bydd y cysylltedd a'r tryloywder hwn â'r agenda ranbarthol ehangach yn parhau wrth i ni hefyd barhau i gefnogi, cyflawni dros ac adrodd i'r bwrdd rhanbarthol fel un o'i is-fyrddau thematig allweddol.

Mae'r cysylltiadau i Lywodraeth Cymru drwy ein haelodaeth o Fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru (WESB) yn hollbwysig o hyd, i helpu i oleuo a chadw gwybodaeth o'r tri rhanbarth sy'n gweithio'n gyfunol â phartneriaid eraill mwy cenedlaethol, oherwydd mae'r hyn sy'n deillio o WESB yn goleuo'r Cyngor Datblygu Economaidd sy'n cael ei gadeirio gan Brif Weinidog Cymru.

Roedd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n falch o fod wedi trefnu a chynnal cyfarfod cyntaf Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru, lle'r oedd Gweinidog newydd yr Iaith Gymraeg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau'n bresennol, yn Theatr Clwyd yn yr Wyddgrug ym mis Mawrth 2018. Cafodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd ei chydnabod ymhellach pan wahoddwyd ein cadeirydd, Sasha Davies, i fynychu a chyflwyno yn y Cyngor Datblygu Economaidd Cenedlaethol yng Nghaerdydd ym Mehefin 2018.

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer y Bartneriaeth wedi bod yn eu lle ers 2013 ac yn y broses o gael eu hadolygu yng ngoleuni'r trefniadau diwygiedig ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a phrosiectau sy'n cael eu darparu o dan Fargen Twf y Gogledd. Bydd synergedd â threfniadau llywodraethu sy'n cyd-fynd â rhai sydd wrthi'n cael eu datblygu â rhanbarthau eraill yng Nghymru'n ganlyniad yr edrychwn ymlaen at weithio tuag ato yn y misoedd i ddod.

Mae aelodaeth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n gynrychiadol o gyflogwyr, darparwyr a phartneriaid perthnasol eraill. Rydym wedi cyhoeddi ein haelodaeth sector a sefydliadol yn flynyddol ers 2015 ac yn ddiweddar wedi ei diweddaru i'n gwe-dudalennau ar-lein i wella tryloywder.




**Aelodaeth Bresennol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru**

| | | |
|---|---|---|
| Sasha Davies – Ynni ac Amgylchedd | Sioned Williams – Llywodraeth Leol | Mike Learmond – Ffederasiwn y Busnesau Bach |
| Gavin Jones – Gweithgynhyrchu | John Gallanders – Y Trydydd Sector | Arwyn Thomas - Ysgolion / GwE |
| Ceri Jones – Adeiladu | Nerys Bourne – Gyrfa Cymru | Bryn Jones – Prifysgol Bangor |
| Garffild Lewis – Creadigol a Digidol | Beverly Lovatt – DWP | Aulay Mackenzie – Prifysgol Glyndŵr, Wrecsam |
| Charlotte Walton – Iechyd a Gofal Cymdeithasol | Ruth Collinge – NTFW | Lynnette Thomas – Y Brifysgol Agored |
| Jim Jones – Twristiaeth a Lletygarwch | Christine Wynne - EPC a 14-19 | Sue Price - Coleg Cambria |
| Swydd wag – Bwyd a Diod | Colin Brew – Siambr Fasnach | James Nelson - Grwp Llandrillo Menai |
| Swydd wag – Ariannol a Phroffesiynol | Ashley Rogers – Cyngor Busnes | Iwan Thomas - NWEAB |

## Adran 5: Strategaeth Ymgysylltu â Chyflogwyr

Ers 2016, cyflogwr sydd wedi cadeirio Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru – Sasha Davies o gwmni Horizon Nuclear Power.

Gan adeiladu ar waith ac ymroddiad ein cadeiryddion sector cyhoeddus blaenorol, rydym bellach fel partneriaeth yn elwa o gyfarwyddyd a dealltwriaeth un o brif swyddogion strategol cwmni byd-eang, fydd cyn bo hir yn arwain un o'r prosiectau mwyaf yng Nghymru a'r DU sydd i'w adeiladu yma yn y Gogledd – Wylfa Newydd.

Mae'r rôl o ymgysylltu, ac o ddarparu canlyniadau a deilliannau, gyda chyflogwyr o bob rhan o'r rhanbarth, o amrywiaeth o sectorau a gyda chwmnïau o bob maint, wedi bodoli ers creu Is-grŵp Cyflogaeth a Sgiliau cyntaf y NWEAB yn 2013, gan barhau i esblygu a datblygu ers hynny.

Yn lle creu cyfres ddyblyg o is-grwpiau clwstwr cyflogwyr ychwanegol yng Ngogledd Cymru, penderfynodd y Bartneriaeth ddefnyddio a thrin a thrafod yn uniongyrchol â fforymau a grwpiau cyflogwyr sydd eisoes yn bodoli, ac sydd ag aelodaeth ehangach o sefydliadau partner, sy'n rhoi mynediad i ni at ein prif economïau trefol a gwledig.

Fel aelodau o'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gwerthfawrogwn fewnbwn a'r mynediad sydd gennym at aelodaeth ehangach y cyrff cyflogwyr hyn gan gynnwys Ffederasiwn y Busnesau Bach, Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy, a Siambr Fasnach Gorllewin Sir Gaer a Gogledd Cymru; mae uwch-arweinwyr y tri chorff yng Ngogledd Cymru'n eistedd ar y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

Mae'r RSP mewn cysylltiad rheolaidd â'r sefydliadau hyn y tu allan i gyfarfodydd ein fforymau a digwyddiadau eraill, gan fynychu eu cyfarfodydd rhwydwaith a bwrdd yn ogystal â chyfrannu newyddion diweddaru ac erthyglau pwrpasol i gyhoeddiadau aelodaeth ynghyd â gwybodaeth a data pwrpasol i gefnogi'r digwyddiadau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y mae'r sefydliadau hyn yn arwain arnynt a chyfrannu atynt.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

NWMD Business Council Cyngor Busnes

fsb Arbenigwyr mewn Busnes Experts in Business

West Cheshire & North Wales Chamber of Commerce
Together, we're Well Connected.

Drwy gael mynediad i'r rhwydweithiau hyn gallwn ymgysylltu'n uniongyrchol â chwmnïau ar draws Gogledd Cymru, o unigolion entrepreneuraidd a micro-fusnesau, busnesau bach a chanolig a'n 60,000 o fusnesau cofrestredig ar draws Gogledd Cymru, i'r angor-gwmnïau mwy sy'n gweithredu yma yn ein rhanbarth i gyd-gefnogi a dylanwadu ar ein cynlluniau cwricwlwm gan bartneriaid.

Rydym yn parhau i gefnogi digwyddiadau a chyfarfodydd Llywodraeth Cymru gydag angor-gwmnïau rhanbarthol lle cynhelir y rhain yng Ngogledd Cymru, ac yn parhau hefyd i gyfrannu at a chefnogi nifer o geisiadau gan ganghennau ehangach o lywodraeth i gefnogi buddsoddi, polisïau, ac ymgynghori â chwmnïau mwy, gan hyrwyddo ac ymateb i faterion sgiliau a chyfleoedd ynghyd â hyrwyddo mynediad cyfartal at sgiliau.

Un enghraifft ddiweddar ar 17 Mai 2018 oedd ein mewnbwn uniongyrchol i'r cyflwyniad a'r arddangosfa i ddenu un o'r Canolfannau Logisteg newydd gan Heathrow i Ogledd Cymru. Ar ôl darparu ystod sylweddol ac eang o ddata sgiliau a chyflogaeth cychwynnol, ynghyd â data demograffig rhanbarthol cyd-destunol mewn ymateb i geisiadau gan Lywodraeth Cymru yn 2017 ar ddechrau'r ymarfer cychwynnol, mewn digwyddiad cyflwyno ym mis Mai 2018 ac ochr yn ochr ag Alun Cairns AS, Ken Skates AC, ac arweinwyr rhanbarthol, rhoesom gyflwyniad i gydweithwyr yn Heathrow ar fanteision sgiliau a chyflogaeth ein marchnad lafur, data oedd wedi'i gasglu gan yr RSP, i helpu i ddenu'r buddsoddiad hwn i Ogledd Cymru.






Yn ogystal â'r ymgysylltu rheolaidd a pharhaus â chyflogwyr drwy'r fforymau a'r rhwydweithiau sydd eisoes yn bodoli yng Ngogledd Cymru, rydym hefyd yn mynychu digwyddiadau ychwanegol pwrpasol i gefnogi'r portffolio gwaith ar sgiliau a chyflogaeth. Rydym yn parhau, gyda busnesau, i ymgysylltu a chefnogi pob un o'r prosiectau sgiliau ESF y gwnaethom eu hysgogi a'u cefnogi o'r dechrau, ac sydd bellach yn weithredol ac yn cyflawni gyda busnesau, ac er mwyn busnesau, ar draws y rhanbarth.

Hefyd yn y flwyddyn ddiwethaf a gyda'n partneriaid, rydym wedi hwyluso datblygu Prosiect STEM y Gogledd, sydd bellach wedi'i gymeradwyo gan WEFO, ac wedi ymgysylltu â chyflogwyr gan sicrhau cyfraniad arian cyfatebol o dros £200,000 gan un cyflogwr mawr ynghyd ag arian cyfatebol ychwanegol gan lawer o rai eraill, sydd i'w groesawu'n fawr.

Un enghraifft o ymgysylltu'n uniongyrchol â chyflogwr oedd pan gysylltodd ffatri ddodrefn a chlustogwaith yng Nglannau Dyfrdwy i holi sut y gallent gefnogi prentisiaethau pwrpasol, gan arwain o ganlyniad at Goleg Cambria'n gweithio gyda darparwr hyfforddiant yng Ngogledd Lloegr i sefydlu academi hyfforddiant neilltuol ar gyfer prentisiaethau ar safle yn eu ffatri sy'n cyflenwi siopau mawr y stryd fawr ar draws y DU.

Cyflogwr mawr byd-eang arall yr ydym wedi gweithio â nhw drwy ein prosiectau i adnabod anghenion sgiliau'r dyfodol yn y rhanbarth, yw SIEMENS. Er eu bod wedi sefydlu ers tro byd yn Llanberis, rydym wedi bod yn gweithio'n

agos â thîm sgiliau ac addysg y DU ym Manceinion i adnabod sgiliau ehangach yn y sector gweithgynhyrchu, sgiliau y bydd eu hangen o ganlyniad i ddatblygiadau A.I. a datblygiadau eraill ar draws Diwydiant 4.0 yng Ngogledd Cymru.

Rydym hefyd wedi gweithio ar brosiect pwrpasol i hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd gyda phobl ifanc mewn ymateb i ymgysylltu â chyflogwyr, gyda'r cam cyntaf wedi arwain at ymgysylltu'n llwyddiannus â chwmnïau fel Harlech Foods, Griffiths Civil Engineering, a Horizon Nuclear Power. Drwy weithio hefyd â'n partneriaid addysg, y DWP a Gyrfa Cymru, rydym wedi darparu adnoddau ar-lein ar gyfer pobl ifanc, gan hyrwyddo'r sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen ar gyflogwyr yma yn y Gogledd.

Gyda 67% o'n 60,000 o fusnesau cofrestredig ar draws y rhanbarth yn cyflogi llai na phump o bobl, nid yw mynediad at nifer mor fawr gyda chyn lleied o adnoddau canolog yn beth hawdd. Fodd bynnag, drwy'r rhwydweithiau uchod ceisiwn ymgysylltu ac ymgynghori â chynifer ohonynt â phosib i helpu i oleuo ein rhagolygon ar gyfer y dyfodol, a pha feysydd i ganolbwyntio arnynt.

Un ffynhonnell bwysig o ddata cyflogwyr rheolaidd yw ein cwestiynau pwrpasol am sgiliau a hyfforddiant yn yr arolwg cyflogwr chwarterol gan bartner yr RSP, sef Siambr Fasnach Gorllewin Sir Gaer a Gogledd Cymru. Mae'r arolwg yn un o'r rhai a gefnogir orau yn y rhanbarth gan ddarparu data tueddiadau chwarterol a hefyd yn adlewyrchu'r economi a'r farchnad lafur dros y ffin yng Ngogledd Cymru.

Dengys y data diweddaraf ar gyfer ail chwarter 2018 fod 75% o'r busnesau a holwyd ar draws yr ardal eang ac amrywiol hon yn bwriadu uwchsgilio, hyfforddi a datblygu eu staff o fewn y chwe mis nesaf, gyda 54.5% ohonynt yn dewis gwneud hyn yn fewnol. Fodd bynnag dywedodd rai (34%) y byddent yn parhau i weithio gyda phartneriaid addysg bellach, a'r gweddill y byddent yn gweithio gyda darparwyr hyfforddiant preifat.

## Adran 6: Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Mae'r dull a ddefnyddir yn ein rhanbarth yn un y mae'r holl bartneriaid yn ei gydnabod fel #TeamNorthWales.

Mae dull cyffredin o gefnogi ein rhanddeiliaid, eu prosiectau a'u canlyniadau fel rhan o gonsensws rhanbarthol, wedi bod yn allweddol i lwyddiant y gwaith partneriaeth ar draws Gogledd Cymru a thros y ffin hyd yma.

Ers 2014 rydym wedi gweithio'n flynyddol â rheolwyr cwricwlwm yn y ddau goleg addysg bellach i gynnal sesiynau 'herio a chefnogi' gyda rheolwyr, i adnabod a fydd cynigion drafft i uwchsgilio ein cyflenwad llafur presennol, ac yn y dyfodol, yn cwrdd â'r galw presennol yn y rhanbarth, a'r galw i ddod. Mae'r cymorth a roddir i reolwyr cwricwlwm i adnabod pa gamau i'w cymryd i uwchsgilio a pharatoi pobl am swyddi y gwyddom sydd eisoes yno, neu a fydd yno, yn greiddiol i hyrwyddo cynnydd cynaliadwy ar gyfer Gogledd Cymru.

Ar ôl gweithio â rheolwyr cwricwlwm ac arweinwyr colegau'n gyson a rheolaidd dros y pedair blynedd diwethaf, rydym eisoes yng Ngogledd Cymru wedi gweld gwahaniaeth yn y ddarpariaeth sydd ac y bydd ei hangen arnom fel rhanbarth. Mae ein darparwyr wedi bod yn agored a hygyrch, ac yn anad dim, yn ymatebol i'r anghenion sector a rhanbarthol sydd wedi eu hadnabod nid yn unig drwy'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol blynyddol ond drwy ddeialog ac ymgysylltu rheolaidd a pharhaus pob blwyddyn.

Drwy weithio fel rhan o #TeamNorthWales, mae trafodaeth a gwaith cynllunio agored a thryloyw wedi bod yn bosib, gyda data ansoddol a meintiol rhanbarthol yn cael ei ddarparu gan yr RSP, i gyfiawnhau a chefnogi'r gwariant ar ddatblygu cyfleusterau addysgu newydd gan gynnwys y Ganolfan Beirianneg yn Llangefni ar Ynys Môn a'r Ganolfan Ragoriaeth Adeiladu yn Bersham Road yn Wrecsam.

Yn ogystal â gweithio â phartneriaid yn y rhanbarth, rydym yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd a chyson â phartneriaid cenedlaethol fel Ymddiriedolaeth y Tywysog, y Sefydliad Dysgu a Gweithwyr, Colegau Cymru,

Cymwysterau Cymru, CADW, y Cynulliad Cenedlaethol a BBC Cymru Wales i helpu i gyfrannu at a hyrwyddo materion a datblygiadau perthnasol i Ogledd Cymru ar ran yr RSP a'n partneriaid.

Mae gweithio gyda'r Parthau Menter yn y rhanbarth hefyd yn ystyriaeth bwysig ar gyfer ein gwaith parhaus o weithio gyda, a deall galwadau cyflogwyr, a sut y gallwn weithio â darparwyr i helpu i dywys eu ffocws tuag at eu hateb. Un enghraifft ddiweddar yw'r gwaith y cawsom ein comisiynu i'w wneud ac i arwain arno gan Barth Menter Môn sy'n defnyddio ein model 'CAMAU STEM' presennol i weithio gyda chyflogwyr ar draws yr Ynys er mwyn hyrwyddo'r sgiliau cynaliadwy a'r arbenigedd sydd ei angen ar y diwydiant twristiaeth a lletygarwch i'w wneud yn hygyrch a deniadol i'r holl gohortau.

Os symudwn ymlaen at 2019 rydym bellach yn cydnabod, drwy adeiladu ar ein prosesau ymgysylltu helaeth, hyblyg ac ymatebol â rhanddeiliaid dros y pum mlynedd diwethaf, y byddwn yn awr yn mynd ati i ffurfioli'r gwaith hwn a'i gynnwys mewn Strategaeth Ymgysylltu ffurfiol a chytunedig. Byddwn yn ymgynghori arni ac yn cytuno yn 2019 y bydd hefyd yn ymgorffori a hyrwyddo'r agenda hygyrchedd yng nghyswllt bod pobl anabl yn gallu cael mynediad at gyfleoedd hyfforddiant sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth, gyda chefnogaeth ein partneriaid.

Ers Ionawr 2018 mae detholiad bach o'r digwyddiadau rheolaidd yr ydym wedi eu cynnal â'n rhanddeiliaid, o fewn a'r tu allan i'r rhanbarth, i hyrwyddo gwaith ein partneriaid a rôl sylweddol yr RSP, yn cynnwys yr enghreifftiau canlynol:

| | |
|---|---|
| **IONAWR 2018** | Wedi arwain gweithgor yn cynnwys awdurdodau lleol, addysg bellach, cyflogwyr, LlC a CADW i adnabod y cymorth i ddatblygu sgiliau treftadaeth sydd ar gael yn y cymoedd llechi, i gyd-fynd â'r cais am Statws Treftadaeth Byd. |
| | Wedi ymgysylltu ag arweinwyr y sector amaethyddol i adnabod a chefnogi anghenion a darpariaeth sgiliau ar gyfer economi wledig Gogledd Cymru yn y dyfodol. |
| | Wedi cefnogi a chyflwyno i ddigwyddiadau Busnes Cymru a gynhaliwyd yn y rhanbarth. |
| **CHWEFROR 2018** | Wedi parhau i weithio gyda GwE fel aelod o'u Bwrdd Ymgynghorol i oleuo rhaglenni cenedlaethol ar ddatblygu'r cwricwlwm ac arweinyddiaeth athrawon yng Ngogledd Cymru, i gyd-fynd â'r agenda economi a sgiliau. |
| | Wedi cyflwyno yn y gynhadledd Fwyd a Diod genedlaethol a gynhaliwyd yn Venue Cymru i hyrwyddo'r Sector Twf hwn fel y nodwn yn ein Cynllun Sgiliau ar gyfer Gogledd Cymru, a chyfrannu at banel arbenigol ochr yn ochr â chyflogwyr. |
| | Wedi mynychu cyfarfodydd rheolaidd â chyflogwyr ar draws y rhanbarth, gan gynnwys fel aelod o Grŵp Gweithredol Parc Busnes Llanelwy. |
| | Bu tîm RSP yn cyd-arwain a threfnu 'SEREN: Ewch yn Bellach' – digwyddiad a noddwyd gan LlC ac a gynhaliwyd yn Venue Cymru i ddod â chyflogwyr a myfyrwyr Bl.12 at ei gilydd. |
| **MAWRTH 2018** | Wedi arwain ar drefnu a chynnal Bwrdd Cyflogaeth a Sgiliau Cymru a gynhaliwyd yn Theatr Clwyd ac yn arddangos ein sector Creadigol a Digidol. |
| | Wedi parhau i ymgysylltu â'r Siambr Fasnach dros y ffin i gyfrannu ymhellach i'r arolwg cyflogwyr chwarterol ar sgiliau. |
| | Wedi drafftio cynigion ar ddatblygu dadansoddiad o Fylchau Sgiliau i'w gyflwyno i Is-grŵp Sgiliau Adeiladu Wylfa'r RSP, wedi'i arwain gan Horizon Nuclear Power. |
| **EBRILL 2018** | Wedi hwyluso ac arwain gweithgorau aml-bartner i gefnogi'r gwaith ar hyrwyddo a datblygu Achosion Busnes Amlinellol ar gyfer y Fargen Dwf. |

| | |
|---|---|
| | Wedi lansio'r adroddiad rhanbarthol cyntaf yng Nghymru ar Sgiliau Iaith Gymraeg yn yr Economi i gynulleidfa orlawn ym Mhorth Eirias, Bae Colwyn. |
| | Wedi cynnal trafodaethau â phenaethiaid ar hyrwyddo STEM a rhagoriaeth yn ein hysgolion a chysylltu hyn i gyflogwyr er mwyn denu nawdd. |
| | Wedi cyflwyno i Grŵp Arweinyddiaeth Strategol Addewid Caerdydd, ar eu gwahoddiad, i ddysgu o'r arferion gorau y mae'r RSP eisoes yn eu darparu. |
| **MAI 2018** | Wedi casglu tystiolaeth a data cyflwyno ychwanegol ar gyfer partneriaid yn Uwch-Gynhadledd Gwaith a Ffyniant Glannau Dyfrdwy a drefnwyd gan Jack Sargeant AC. |
| | Wedi gweithio gyda CITB Cymru a chydweithwyr o weddill y DU i ddatblygu dadansoddiad o'r sector adeiladu yng Ngogledd Cymru a beth fydd y galw'n gysylltiedig â Wylfa. |
| | Wedi parhau i weithio gyda Pharth Menter Môn a chyflogwyr ar brosiectau sgiliau. |
| | Gogledd Cymru oedd yr unig RSP i gael ei gwahodd i gyfrannu a bod ar y panel arbenigol yn y Gynhadledd Addysg Oedolion Genedlaethol yn Stadiwm Dinas Caerdydd. |
| | Wedi arwain ar ymchwil a datblygu ar gyfer y dystiolaeth sgiliau sydd i'w chyflwyno, ochr yn ochr â LlC a Llywodraeth y DU, fel rhan o'r cais i ddenu Canolfan Logisteg Heathrow i'r rhanbarth. |
| **MEHEFIN 2018** | Wedi gweithio gyda chyflogwyr adeiladu cenedlaethol mewn digwyddiad ym Mhort Talbot i adnabod rhaglen ysgolion genedlaethol i hyrwyddo sgiliau yn y diwydiant. |
| | Wedi gweithio gyda phartneriaid dros y ffin i adnabod sut i hyrwyddo a chyd-arwain gwaith ar gyfateb swyddi graddedigion i sectorau twf ac allweddol y Cynllun Sgiliau. |
| | Wedi arwain gweithdy ar rôl yr RSP yn cefnogi Bargeinion Twf a Dinesig yng nghynhadledd genedlaethol y NTFW yng Ngwesty'r Celtic Manor yng Nghasnewydd. |
| | Wedi cadeirio cyfarfodydd rhwydwaith yr holl brosiectau cenedlaethol a rhanbarthol yng Ngogledd Cymru ar gyfer holl raglenni ESF WEFO. |

## Adran 7: Cymorth ar gyfer Bargen Twf y Gogledd

Fel is-grwp dynodedig o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn gweithio'n galed i gyfrannu at a chefnogi datblygiad y Weledigaeth Dwf gychwynnol a'i thri nod allweddol sydd, yn eu tro, wedi goleuo datblygiad a ffocws Bargen Twf y Gogledd:

**Y Gogledd Clyfar** – gyda ffocws ar arloesi mewn sectorau economaidd gwerth uchel i wella perfformiad economaidd;

**Y Gogledd Gwydn** – gyda ffocws ar gadw ein pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau i sicrhau twf cynhwysol;

**Y Gogledd Cysylltiedig** – gyda ffocws ar wella'r seilwaith trafnidiaeth a digidol i wella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac oddi mewn iddo.

Er bod sgiliau'n thema drawsbynciol sy'n cefnogi'r holl nodau uchod a'r prosiectau sydd wedi eu datblygu o dan y Fargen Dwf, mae'r prosiectau penodol o dan y thema 'Gwydn' wedi gweld partneriaid y Bartneriaeth Ranbarthol yn chwarae rhan uniongyrchol mewn ymgynghori ar, datblygu a chreu Achosion Busnes Amlinellol.

Mae data o'r Cynllun Sgiliau Rhanbarthol wedi darparu tystiolaeth gyd-destunol uniongyrchol i gyfiawnhau cynigion sylfaenol, gyda phartneriaid y Bartneriaeth wedi cymryd rhan mewn trafodaethau datblygu fel bo angen, i gysoni anghenion sector, rhanbarthol a sgiliau yn y dyfodol, gyda phrosiectau allweddol wedi eu datblygu'n cynnwys Canolfannau Rhagoriaeth yn gysylltiedig â'r sectorau twf yn y Cynllun Sgiliau, a chyfleoedd prosiect penodol; yn ogystal ag i gefnogi Cyflogadwyedd a'r Porth newydd i gefnogi ac ategu 'Cymru'n Gweithio'.

Mae Cadeirydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn aelod arsylwi o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ynghyd ag arweinwyr rhanbarthol eraill, i helpu i ddarparu cysylltedd ar lefel strategol; ac mae Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol y RSP yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r Achosion Busnes Amlinellol i gefnogi'r Fargen Dwf.

Gyda strwythur clir bod y Fargen Dwf i'w darparu a'i rheoli gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, a'i bum is-fwrdd thematig, mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn cyflawni rôl Is-fwrdd Cyflogaeth a Sgiliau ar gyfer y rhanbarth er mwyn cysoni a chysylltu'r cysylltiadau perthnasol ac fel llinell atebolrwydd.

Fel rhan allweddol o'r strwythur llywodraethu newydd ar gyfer Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar ei newydd wedd, bydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n elwa o arweinyddiaeth ac atebolrwydd clir y Bwrdd i ddarparu cyfeiriad strategol a chanlyniadau fel sbardun economaidd i'r Gogledd; wedi'i gefnogi gan RSP i oleuo a chefnogi'r agenda sgiliau a chyflogaeth ar draws pob allbwn fel rhan o un llais cryf ac unedig i Ogledd Cymru. Bydd cydgysylltu ac allbwn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn bresennol ac yn y dyfodol, yn gyfraniad pwysig i'r NWEAB wrth iddo weithio i gynyddu gwerth economi Gogledd Cymru o £13.6 biliwn yn 2016 i £26 biliwn erbyn 2035; a chreu 5,000 o swyddi uniongyrchol wedi'u cefnogi gan fuddsoddiad gan y sector preifat a hynny o ganlyniad uniongyrchol i ddarparu (gyda chymorth y sector preifat) prosiectau gwerth £3.6 biliwn.

## Adran 8: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n parhau i chwarae rôl allweddol yn yr ymchwil ar gyfer pob prosiect ESF rhanbarthol drwy gasglu tystiolaeth ar gyfer y rhanbarth sy'n dangos yn glir pa gamau i'w cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau cymdeithasol, amddifadedd a goblygiadau sgiliau, sy'n cyd-fynd â nodau ehangach Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru.

Gyda thri o'n prosiectau ESF rhanbarthol yn benodol, casglwyd tystiolaeth sylweddol i fynd i'r afael â hyn:

Prosiect yw **TRAC** i bobl ifanc 11-18 oed sydd mewn addysg ac mewn perygl o fynd yn NEET ar ôl eu haddysg orfodol. Nod allweddol y prosiect hwn yw fel mesur ataliol ar gyfer y bobl ifanc agored i niwed hyn gan weithio'n gydgysylltiedig â'r ysgol, asiantaethau allanol, rhieni a chyflogwyr.

Mae **ADTRAC** yn brosiect yn y rhanbarth i bobl ifanc 16-24 oed sy'n NEET ar ôl eu haddysg orfodol ac sydd angen cymorth arnynt i ail-afael mewn addysg a goresgyn unrhyw rwystrau anodd. Elfen unigryw yw'r bartneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i geisio ateb y galw uchel gan bobl ifanc NEET gyda phroblemau iechyd meddwl, a mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn fel y medrant ail-afael yn eu haddysg.

Mae **OPUS** yn wasanaeth ar gyfer pobl 25+ oed sy'n economaidd anweithgar neu'n ddiwaith tymor hir. Y cohort hwn yw'r un pellaf o'r farchnad lafur ac mae'n wynebu rhwystrau cymhleth i ail-ymuno â'r farchnad lafur. Daeth y dystiolaeth ar gyfer y prosiect hwn o ddata a gasglwyd gan bartneriaid yr RSP yn cyfeirio at bocedi o ddiweithdra 'di-ildio' yn y rhanbarth.

Mae gan bartneriaid sector cyhoeddus RSP Gogledd Cymru Bolisïau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth penodol sydd ar gael ar-lein, wedi'u cefnogi gan weithdrefnau ac arferion monitro ac adrodd ac sy'n atebol i ofynion y Ddeddf ac i graffu gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r Prosiectau Ewropeaidd rhanbarthol wedi casglu'r holl bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth at ei gilydd i gydymffurfio â gofynion cyllid Ewropeaidd ar gyfer Cynlluniau Busnes drwy'r Themâu Trawsbynciol, sy'n rhan sylweddol o bob Cynllun Busnes. Mae'r rhain yn cael eu monitro'n rheolaidd a rhaid adrodd ar amrywiaeth a niferoedd.

Mae enghreifftiau gan bartneriaid yr RSP yn cynnwys arolygon llais myfyrwyr blynyddol yn y ddau goleg Addysg Bellach, ac arolygon myfyrwyr Addysg Uwch blynyddol. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn cael eu cyhoeddi ac ar gael i rieni, myfyrwyr a chyflogwyr i'w hadolygu.

Mae llawer o gyflogwyr mawr y rhanbarth yn cyhoeddi adroddiadau blynyddol ac yn adrodd ar ofynion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ac Iechyd a Diogelwch. Maen nhw hefyd yn cyflawni arolygon staff, yn ymgynghori â staff, yn cynnal diwrnodau cwrdd i ffwrdd i'w staff a chyfarfodydd cyffredinol / cyhoeddus blynyddol; gyda Horizon Nuclear Power yn enghraifft bresennol glir o'r ymgysylltu sylweddol gyda'r cyhoedd mewn digwyddiadau ar draws y rhanbarth.

Hefyd, mae gan lawer o gwmnïau preifat y rhanbarth bolisïau cyfrifoldebau corfforaethol a chymdeithasol sy'n cynnig manteision i'w staff ac i'r gymuned ehangach fel Zip World, Alun Griffith Contractors, Siemens, Theatr Clwyd a Moneypenny i enwi dim ond rhai, ac sydd i gyd yn buddsoddi ac yn cynnal digwyddiadau cymunedol a / neu deuluol rheolaidd.

Yn ôl y Sefydliad Cyflog Byw, yn 2018 roedd 152 o gyflogwyr ar draws Cymru a ddywedodd eu bod yn talu cyflog byw i'w staff. Yng Ngogledd Cymru mae tua 60,000 o gyflogwyr a byddai'r RSP yn cefnogi a hyrwyddo rôl Busnes Cymru yn Llywodraeth Cymru i wneud y gwaith dadansoddi manwl pellach hwn, oherwydd mae'r adnodd dynodedig ar gyfer ymgysylltu â busnesau yma, ac nid yw'n cael ei ariannu drwy'r RSP. Ein rôl bresennol ar sail ein cyllid presennol yw cefnogi a chyfeirio cyflogwyr yr ydym yn ymgysylltu â nhw ymlaen at rywun arall, ac fel RSP Gogledd Cymru byddem yn llwyr gefnogol o symud at wneud mwy o hyrwyddo cyflogau cyfartal a chyflogaeth deg.

Mae data o'n harsyllfa ddata ar-lein yng Ngogledd Cymru'n casglu gwybodaeth am gyflogau cyfartalog ar draws y rhanbarth mewn cymhariaeth â'r cyfartalog drwy Gymru. Dengys y data diweddaraf fod y cyflog cyfartalog wythnosol arferol yn is na'r cyfartalog drwy Gymru o £12.75, a'r cyfartalog drwy weddill y DU o £14.00.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | **£12.43** | Conwy | **£13.14** | Sir y Fflint | **£12.89** |
| Gwynedd | **£10.98** | Sir Ddinbych | **£11.51** | Wrecsam | **£12.11** |

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarth yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r gwaith ar Fargen Twf y Gogledd a bydd ei nod o leihau anghydraddoldeb a chyflogau isel yng Ngogledd Cymru drwy wella sgiliau a chynyddu'r pwysau ar y farchnad waith yn helpu i godi cyflogau. Bydd cynigion ar gyfer 'twf cynhwysol' yn gweithio i ehangu'r gweithlu ar sail nifer o fesurau targed drwy weithio gyda'r DWP ac asiantaethau eraill a hefyd drwy ddod â phobl sydd ar hyn o bryd ar yr ymylon, oherwydd gwaeledd iechyd, sgiliau isel a thrafnidiaeth gwael i gyrraedd cyflogaeth, yn ôl i weithio gyda chymorth targed. Bydd y Cais hefyd yn cyflwyno targedau i gael mwy o bobl i ymuno â'r gweithlu a lleihau tlodi.

Drwy gefnogi'r 12,000 o bobl yng Ngogledd Cymru sydd wedi cofrestru'n anabl, gyda mesurau trafnidiaeth a phenodol i wella mynediad holl gohortau ein cymdeithas at waith, yn galluogi mwy o bobl i deithio i'w gwaith yn hwylus, yn cynyddu'r effaith 'crynodrefi' ar draws economi Gogledd Cymru a thros y ffin yn ardal Merswy Dyfrdwy, gan adlewyrchu'r farchnad lafur gynyddol fwy symudol sydd yma yng Ngogledd Cymru.

Mae'r RSP yn gweithio gyda Bargen Twf y Gogledd i helpu i oleuo a datblygu mwy o ddull 'lle' o ddatblygu'r economi, gyda mwy o'r adnoddau a'r gwasanaethau'n cefnogi economi Gogledd Cymru yng Ngogledd Cymru a gyda chyngor a chymorth gan leisiau Gogledd Cymru. Mae hyn wrth galon y cysyniad o "Dim Gogledd Cymru".

## Adran 9: Deall y Farchnad Lafur

Mae'r templed a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru'n gofyn i Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol nodi'r ffynonellau ychwanegol o wybodaeth am y Farchnad Lafur (LMI) sydd wedi'i chaffael, ei chasglu a'i defnyddio ganddynt ar gyfer yr ymarfer hwn.

Mae'r ffynonellau isod yn ddetholiad enghreifftiol sy'n ychwanegol i'r ystadegau, data a'r wybodaeth gan Lywodraeth Cymru drwy Stats Cymru, y Swyddfa Ystadegau Gwladol a ffynonellau casglu data ffurfiol a statudol eraill a noddir gan y Llywodraeth, ac yn cynnwys fframweithiau dadansoddi data a gomisiynwyd o blith darparwyr yng Ngogledd Cymru a thros y ffin ac a ddefnyddir yn rheolaidd gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn ogystal â'r gwaith ar Sgiliau a Chyflogaeth.

**Data Gweithlu'r CITB**

Drwy weithio mewn partneriaeth â'r CITB ar lefel Cymru a'r DU, rydym wedi dadansoddi'r gweithlu adeiladu drwy ganolbwyntio'n bennaf ar adnabod yr effeithiau a'r cyfleoedd ar gyfer sgiliau a chyflogaeth yn y sector o ganlyniad i brosiectau seilwaith mawr fel Wylfa Newydd. Drwy hyn cawsom fynediad at ddata Glenigan yn ogystal â data gweithlu arall penodol i'r sector.

**Data gan y Consortiwm Addysg Rhanbarthol GwE**

Fel rhan o barhau i adeiladu ein perthynas waith gyda GwE dros y tair blynedd diwethaf, rydym bellach yn gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r cynigion ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol newydd, ac felly wedi gallu cydweithio ar ddata sgiliau staff, yn rhai presennol ac y bydd eu hangen yn y dyfodol, yn y sector addysg ar draws y rhanbarth. Mae hyn yn ychwanegol i'r data allweddol dienw ar gynnydd, dewisiadau pwnc a chanlyniadau disgyblion ar gyfer pob un o'r siroedd, sydd wedi'i gyfateb gennym i gyfleoedd prosiect allweddol, yn ein sectorau allweddol a thwf.

**Arolwg Cyflogwr Chwarterol Siambr Fasnach Gorllewin Sir Gaer a Gogledd Cymru**

Mae CEO y Siambr yn aelod o Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru ac yn hyrwyddo mynediad at eu haelodau ar faterion a chyfleoedd sgiliau allweddol. Rydym wedi gweithio gyda thîm cyfathrebu'r Siambr i ymgorffori cwestiynau penodol ar sgiliau a hyfforddiant yn eu harolwg chwarterol fel baromedr rhanbarthol a thrawsffiniol allweddol i ddarogan y galw presennol a'r galw posib yn y dyfodol.

**Arolwg Ymgysylltu Parhaus â Chyflogwyr**

Mae gan dîm canolog y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gyfres graidd o gwestiynau arolwg sy'n cael eu gofyn i gyflogwyr ym mhob digwyddiad cyflogwyr y byddwn yn eu mynychu yn y rhanbarth - gan amrywio o Sgiliau Cymru i'r digwyddiad rhwydweithio SEREN – Ewch yn Bellach y gwnaethom ei gyd-drefnu, ac o gynhadledd Twf Busnes Gogledd Cymru yn Theatr Clwyd i ddigwyddiadau rhwydwaith sirol fel yr un ar Ynys Môn lle comisiynwyd yr RSP i gyflawni prosiect penodol gan Fwrdd Parth Menter Môn.

**Arolwg Ymgysylltu Parhaus â Myfyrwyr**

I gyd-fynd â'r arolwg ymgysylltu parhaus â chyflogwyr uchod, mae gan dîm canolog y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd gyfres graidd o gwestiynau arolwg sy'n cael eu gofyn i fyfyrwyr a chleientiaid ym mhob digwyddiad sgiliau y byddwn yn eu mynychu yn y rhanbarth, i ennill gwybodaeth am ddyheadau, dewisiadau gyrfaol a'r dulliau astudio sydd orau gan fyfyrwyr. Parhawn i gasglu'r data hwn o ddigwyddiadau fel Sgiliau Cymru, ffeiriau gyrfaoedd sirol, digwyddiadau mewn partneriaeth â'n prifysgolion fel PROFI ym Mangor, a sgiliau adeiladu'r dyfodol ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam.

**Data Gwirio Gyrfa gan Gyrfa Cymru**

Mae gennym berthynas weithio agos â Gyrfa Cymru'n rhanbarthol a chenedlaethol ac yn cefnogi eu harolwg Gwirio Gyrfa blynyddol fel offeryn diagnostig allweddol i ddysgu am dueddiadau sgiliau a chyflogaeth yn y dyfodol. Y gyfradd ymateb genedlaethol o tua 31,000 o ddisgyblion Blwyddyn 10 yw 75%, ond yng Ngogledd Cymru oherwydd ymdrechion a gwaith hyrwyddo'r bartneriaeth, mae cyfradd ymateb y rhanbarth wedi bod tua 85% ers tair blynedd. Mae'n rhoi data i ni ar y tueddiadau ar gyfer dyheadau sgiliau yn y dyfodol ac yn dangos effaith ymyriadau cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i fonitro a dadansoddi dewisiadau a data cyrchfannau ôl 16 oed.

**Adran 10: Brexit**

Ers i ni gynnwys manylion sylweddol yng Nghynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 2017 am effaith bosib Brexit ar Ogledd Cymru, nid oes newid mawr wedi bod yn y data sydd ar gael nac yn y dull rhagofalus y byddwn yn ei gymryd os na fydd cytundeb clir rhwng Llywodraeth y DU a'r Undeb Ewropeaidd.

Fodd bynnag, gyda Brexit bellach ar y gorwel a'r cyfnod ar gyfer negodi'n dod i ben yn 2019, mae angen buddsoddi mwy nag erioed yn sgiliau a thalentau ein prentisiaethau presennol o bob oed yng Ngogledd Cymru, ac yn rhai'r dyfodol, i gefnogi cyflogwyr, ein sectorau allweddol a thwf, ein gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol.

Bydd cyhoeddiad diweddar AIRBUS y bydd y cwmni'n ystyried symud o'r DU pe na bai cytundeb yn cael ei gyrraedd yn cael effaith sylweddol ar Ogledd Cymru oherwydd lleoliad ffatri flaenllaw 439,000 troedfedd sgwâr y cwmni ym Mrychdyn, Sir y Fflint, sy'n cyflogi dros 6,000 o weithwyr, ac o leiaf 60% ohonynt yn byw yng Ngogledd Cymru.

Yn ogystal â'r effaith bosib, pe bai AIRBUS yn gadael y DU, ar y gadwyn gyflenwi yng Ngogledd Cymru ac yn enwedig o gwmpas Glannau Dyfrdwy, bydd effaith andwyol hefyd ar sgiliau a chyflogaeth yn y dyfodol. Ar hyn o bryd mae AIRBUS yn hyrwyddo tua 100+ o brentisiaethau pob blwyddyn yn ei safle ym Mrychdyn, yn ogystal â'r gwaith helaeth y mae'n ei wneud â phartneriaid addysg yn hyrwyddo astudio pynciau a gyrfaoedd STEM yn gyffredinol drwy gyfrannu at ysgolion, addysg bellach ac uwch, a rhaglen CAMAU STEM yr RSP ei hun.

Gyda'r dibynnu presennol ar Gronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) am gyllid ar gyfer prosiectau cefnogi sgiliau a chyflogaeth ar draws Gogledd Cymru, mae'r cwestiwn o ba gyllid a ddaw yn lle'r cronfeydd hyn i gefnogi'r gweithgarwch hwn ar gyfer yr agenda sgiliau a chyflogaeth eto i'w ateb a'i gadarnhau.

Mae CBI Cymru'n adlewyrchu dymuniadau llawer o gyflogwyr a darparwyr addysg a hyfforddiant yng Ngogledd Cymru o ran y dylai'r egwyddorion allweddol ar gyfer negodi ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd gynnwys:

**System ymfudo sy'n gadael i fusnesau gael mynediad at y sgiliau a'r llafur sydd ei angen arnynt i dyfu**

**Dull sy'n diogelu manteision cymdeithasol ac economaidd cyllid yr UE gyda gwarantau i ranbarthau fel Gogledd Cymru**

Yn Nhachwedd 2016 bu FSB Cymru yn holi eu haelodau a defnyddiwyd y canlyniadau i oleuo'r adroddiad 'A skilful exit: What small firms want from Brexit'.

Yn dilyn holi cyflogwyr ar draws Cymru, mae gan un o bob pump (21%) o gyflogwyr bach staff o'r UE ar hyn o bryd. Mae'r ffigur cenedlaethol hwn yn adlewyrchu canfyddiad rhanbarthol cyffredinol Gogledd Cymru, ond gyda'r cafeat bod gan y sector twristiaeth a lletygarwch mewn rhai mannau, yn Llandudno er enghraifft, gyfran uwch o staff o'r UE.

Er bod llawer o drafod yr effaith y bydd Brexit yn ei gael, nid oes eto amcan-ffigurau ar gyfer yr effaith y gallai Brexit ei gael ar Ogledd Cymru yn nhermau pobl. Mae gwaith ymchwil y bu Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn arwain arno wedi nodi'r niferoedd, gan ymrwymo i fonitro a chyflawni dadansoddiad mwy manwl nes ymlaen yn 2017.

**14,300**
o ddinasyddion o'r UE yn gweithio yn G. Cymru ar hyn o bryd

**20,900**
o ddinasyddion o'r UE yn byw yn G. Cymru ar hyn o bryd

**3,900**
o ddinasyddion o'r tu allan i'r UE yn gweithio yn G. Cymru

**9,700**
o ddinasyddion o'r tu allan i'r UE yn byw yn G. Cymru

Mae cyllid yr UE wedi cefnogi addysg uwch ac addysg bellach yn aruthrol yng Ngogledd Cymru fel mewn ardaloedd eraill, ynghyd â gwaith y sector yn hyrwyddo sgiliau cyflogaeth drwy gyfres o brosiectau pwrpasol; dau o'r rhai diweddaraf yw'r prosiect SEE (Cymorth i Gyflogwyr a Gweithwyr) sy'n cael ei redeg yn rhanbarthol gan Goleg Cambria; a phrosiect 'Academi Fusnes Gogledd Cymru' sy'n cael ei redeg yn rhanbarthol gan Grŵp Llandrillo Menai. Gyda'r ddau brosiect gyda'i gilydd wedi derbyn cyllid o tua £20m, mae lefel sylweddol o ansicrwydd o ran beth fydd yn dod yn lle'r arian hwn heb gyllid y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd.

**965**
o ddinasyddion yr UE yn astudio mewn colegau Addysg Uwch yn G. Cymru

**2,215**
o ddinasyddion o'r tu allan i'r UE yn astudio mewn colegau Addysg Uwch yn G. Cymru

Mae prifysgolion y DU yn derbyn 15% o gyllid ychwanegol gan yr UE ac mae rhai'n credu y gallai'r DU golli hyn. Ar gyfer prifysgolion Bangor, Glyndŵr Wrecsam a Chaer ymhlith eraill, gallai hefyd olygu y bydd academyddion yn cael trafferth cydweithredu ar brosiectau ymchwil. Gallai newid yn y trefniadau fisa ar gyfer gwledydd Ewropeaidd eraill hefyd atal academyddion o safon uchel rhag ymuno â'n prifysgolion, yn enwedig ar adegau creiddiol pan fydd datblygiadau economaidd fel Wylfa Newydd yn cynnig cryn botensial ar gyfer ymchwil, arloesi a datblygu sgiliau lefel uwch yn y rhanbarth.

Fel rhan o astudiaeth ddiweddar o effaith sgiliau, nododd y Brifysgol Agored fod cyflogwyr yn ei chael yn fwyfwy anodd recriwtio staff gyda'r sgiliau priodol ond gan hefyd nodi'n gwbl glir bod:

**"...yr ansicrwydd oherwydd Brexit yn gwaethygu'r bwlch sgiliau."**

O ganlyniad, canfu'r arolwg fod llawer o gwmnïau'n gorfod llogi staff dros dro a thalu ffioedd recriwtio ychwanegol yn ogystal â chyflogau uwch; arfer sy'n dod yn gynyddol fwy cyffredin gyda chyflogwyr yng Ngogledd Cymru, yn enwedig ym maes twristiaeth a lletygarwch, a hefyd yn y sector Creadigol a Digidol.

Er bod ymchwil flaenorol gan yr RSP a'i phartneriaid yng Ngogledd Cymru wedi awgrymu mai un o brif effeithiau Brexit fydd colli sgiliau o'r UE a ddefnyddir yn gyffredin ar hyn o bryd mewn nifer o sectorau'r 'Economi Sylfaenol' – iechyd a gofal cymdeithasol, twristiaeth a lletygarwch, amaeth a chynhyrchu bwyd – wynebwn hefyd bellach y bygythiad ychwanegol o golli llawer o sgiliau medrus ar draws ein cadwyni cyflenwi gweithgynhyrchu ehangach pe bai'r senario trist o AIRBUS yn gadael yn dod yn realiti a chwmnïau mawr eraill yn gwneud yr un peth.

Yng ngoleuni'r cyhoeddiad hwn (22 Mehefin 2018), bydd yr RSP a'i phartneriaid yn parhau i weithio'n gydweithredol i gefnogi'r holl unigolion a busnesau y byddai hyn yn effeithio arnynt ac yn mynd ati'n rhagweithiol i baratoi atebion i'w drafftio gyda'i holl bartneriaid perthnasol pe bai'r bygythiad hwn i'n heconomi ranbarthol yn troi'n realiti ar ôl Brexit a dim cytundeb yn cael ei gyrraedd rhwng yr UE a Llywodraeth y DU.

**Adran 11: Cyngor a Chyfarwyddyd Gyrfaoedd**

O fod y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gyntaf yng Nghymru i ymgysylltu a phartneru gyda Gyrfa Cymru ar eu cyfres a'u cyhoeddiad "Sbotolau ar...."; i fod yr RSP gyntaf yng Nghymru i sefydlu rhaglen brocera sgiliau gyda'i phartneriaid ar brosiect seilwaith mawr (adeiladu carchar HMP Berwyn) gan lwyddo i ennill Gwobr Rhagoriaeth Adeiladu Genedlaethol am 'Arweinyddiaeth a Rheolaeth' ar ei gyfer, mae RSP Gogledd Cymru'n parhau i fod y bartneriaeth fwyaf rhagweithiol a blaengar o ran cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd.

Rydym yn parhau i adnabod a hyrwyddo cyfleoedd gyrfaoedd STEM ar gyfer pob un o'n sectorau allweddol a thwf a hyrwyddir yn ein Cynlluniau Sgiliau blaenorol. Drwy weithio gyda chyflogwyr o bob un o'r sectorau hyn, Gyrfa Cymru, GwE, darparwyr hyfforddiant preifat a gyda chydweithwyr Addysg Bellach ac Uwch, rydym yn parhau i ddatblygu a hybu ein rhaglen CAMAU STEM i hyrwyddo'r sgiliau a'r cymwysterau y bydd eu hangen ar yrfaoedd y dyfodol ym mhob un o'r sectorau hyn ar draws y rhanbarth.

Gan ddilyn ymlaen o lwyddiant y rhaglen uchod ar gyfer ysgolion cynradd, rydym wedi dechrau gweithio ar ddatblygu estyniad i'r rhaglen ar gyfer disgyblion uwchradd. Drwy weithio gyda Gyrfa Cymru, y rhaglen Ymgyrraedd yn Ehangach ym Mhrifysgol Bangor, a gyda chyflogwyr ar draws y rhanbarth gan gynnwys Siemens ac Airbus, mae'r rhaglen wrthi'n cael ei datblygu i'w darparu yn 2019 gyda chyllid gan y sector preifat.

O'n gwaith ymgysylltu a thrafod parhaus gyda chyflogwyr, un o'r prif rwystrau i gyflogi pobl ifanc sy'n ymuno â'r farchnad lafur am y tro cyntaf oedd eu sgiliau cyflogadwyedd ehangach. Er y gallai llawer o bobl ifanc ddangos eu cymwysterau academaidd, roedd cyflogwyr yn aml yn nodi'r diffyg sgiliau galwedigaethol ac ymgysylltu ychwanegol sydd eu hangen ar bobl ifanc.




Drwy weithio gyda Gyrfa Cymru, partneriaid addysg a chyflogwyr allweddol, rydym wedi creu adnodd ar-lein manwl sy'n hyrwyddo anghenion a disgwyliadau cyflogwyr ac yn cydbwyso hyn â lleisiau pobl ifanc sydd ar fin neu newydd ymuno â'r farchnad lafur yng Ngogledd Cymru, fel offeryn tystio a hyrwyddo ar gyfer eraill.

Drwy ddysgu o lwyddiant ein cynllun brocera gwobrwyol wrth adeiladu carchar HMP Berwyn, rydym yn awr yn gweithio fel rhan o Grŵp Cydgysylltu Sgiliau Adeiladu Wylfa Newydd sydd, fel un o is-grwpiau'r RSP, yn cynnwys aelodau o'r CITB, GLLM, Horizon Nuclear Power, Llywodraeth Cymru, y DWP a Gyrfa Cymru.

Ar hyn o bryd rydym yn cyflawni dadansoddiad ar y cyd â'r CITB i gyfateb y sgiliau presennol a'r sgiliau fydd eu hangen ar Ogledd Cymru yn y dyfodol, ar draws y diwydiant adeiladu yn y rhanbarth, i'r rolau a'r cyfleoedd disgwyliedig y bydd eu hangen yn ystod cam adeiladu'r prosiect, a bydd y ddogfen adnodd allweddol hon yn helpu i gynnal a goleuo'r rhaglen frocera, wedi'i hwyluso gan y DWP ar ran y rhanbarth, i helpu i oleuo gyrfaoedd, swyddi a sgiliau ar gyfer Wylfa Newydd a hefyd y cyfleoedd cadwyn cyflenwi ehangach ar draws sectorau cysylltiedig a chyfrannol ledled Gogledd Cymru (e.e. bwyd, lletygarwch, trafnidiaeth, iechyd, gweithgynhyrchu ac yn y blaen).

Ffynhonnell ddata bwysig i helpu'r RSP a'i phartneriaid i gynllunio'n rhanbarthol ar gyfer gyrfaoedd a'r galw am sgiliau yng Ngogledd Cymru yn y dyfodol, yw'r offeryn diagnostig Gwirio Gyrfa gan Gyrfa Cymru.

Y gyfradd ymateb genedlaethol o tua 31,000 o ddisgyblion Blwyddyn 10 yw 75%, ond yng Ngogledd Cymru oherwydd ymdrechion a gwaith hyrwyddo'r bartneriaeth, mae cyfradd ymateb y rhanbarth wedi bod tua 85% ers tair blynedd.

Ar sail arolwg Gwirio Gyrfa Gogledd Cymru ar gyfer 2018, o'r 5,038 o bobl ifanc a gymrodd ran, y tri dewis gyrfa mwyaf poblogaidd gan y cohort a holwyd oedd Iechyd a Meddygol (452), Hamdden, Chwaraeon a Thwristiaeth (436) a Pheirianneg (431). Daeth un o'r sectorau pwysicaf ar gyfer y rhanbarth o ran sgiliau presennol ac yn y dyfodol, sef Adeiladu, yn 10fed yn y rhestr o'r sectorau mwyaf poblogaidd ar gyfer gyrfa yn y dyfodol gyda dim ond 220 o bobl ifanc, yn cyfateb i 4% o'r cohort cyfan a holwyd, yn ei ddewis.

Dengys dadansoddiad tueddiadau tair blynedd yr RSP fod gan bobl ifanc syniadau gyrfaol eithaf traddodiadol gyda phatrymau ymateb tebyg iawn gan y gwahanol gohortau, wrth i ddewisiadau galwedigaethol pobl ifanc ym mlwyddyn 10 aros fwy neu lai'r un fath dros dair blynedd.

Roedd cynnydd o 329 yn 2016 i 734 o bobl ifanc yn 2018 yn dweud y byddent yn ystyried prentisiaeth fel eu dewis cyntaf. Dyma'r nifer fwyaf i gael ei gofnodi erioed ers i'r ymarfer Gwirio Gyrfa ddechrau yn 2013 ac yn 15% o'r cohort a gwblhaodd yr arolwg yng Ngogledd Cymru a ddywedodd y byddent yn ystyried Prentisiaeth fel eu dewis cyntaf ar ôl blwyddyn 11.

Y prentisiaethau mwyaf poblogaidd fel galwedigaethau dewis cyntaf oedd peirianneg, adeiladu'n ail, a hamdden, Chwaraeon a thwristiaeth yn drydydd, sy'n cwrdd â dau o'n sectorau allweddol ac un o'n sectorau twf a nodir yn gyson mewn Cynlluniau Sgiliau Rhanbarthol diweddar.

Mae hyn yn arwydd da fod pobl ifanc, athrawon a rhieni yng Ngogledd Cymru'n cael eu dylanwadu gan y cyngor gyrfaoedd a'r marchnata cyfryngau gan bartneriaid yr RSP sy'n dweud fod manteision prentisiaethau'n cynnig opsiwn real a gwerthfawr i aros ymlaen mewn addysg. Os yw'r duedd hon yn parhau, neu'n aros mor uchel â hyn, bydd angen i gyflogwyr gynnig mwy o leoedd prentisiaeth i gwrdd â'r cyflenwad o lafur posib. Hefyd, os bydd pobl ifanc yn gwneud dewisiadau prentisiaeth yn 16 oed, mae angen addysg yrfaoedd well a mwy o baratoi i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc cyn Blwyddyn 10, fel y dangosodd ein rhaglen CAMAU STEM bresennol lle mae cyflogwyr yn gweithio gydag ysgolion cynradd ar draws Gogledd Cymru.

Yng Ngogledd Cymru, mae'r RSP hefyd yn ymwybodol iawn, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a phobl yn gweithio'n hirach, bod angen hyrwyddo cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd nid yn unig gyda phobl ifanc ond bod angen cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd trylwyr, deallus a gwybodus ar bobl o bob oed a phob rhan o gymdeithas yn ein rhanbarth.

Fel RSP, byddwn yn gweithio'n gynyddol gyda'n partneriaid i hyrwyddo cyfleoedd a llwybrau gyrfaol gyda chyflogwyr ac unigolion, i gefnogi'r bron i 12,000 o bobl anabl sy'n byw yng Ngogledd Cymru i ddatblygu a hyrwyddo eu sgiliau'n swyddi a gyrfaoedd cynaliadwy.

Gyda mwy o gyfleusterau dysgu ar-lein yn cael eu datblygu, a mwy o gymorth a darpariaeth arbenigol yn gyffredinol gan lawer o'n darparwyr, mae angen i ni gadarnhau sut i ateb a goresgyn pob rhwystr i ddysgu, boed y rheini'n anabledd, gwledigrwydd a hygyrchedd, anghenion gofalu, rhieni sengl, dychwelyd i weithio, ac uwchsgilio'n gyffredinol – mae modd ateb bob un o'r pethau hyn yn gadarnhaol, yn gynaliadwy a phwrpasol i helpu pobl drwy weithio'n gydweithredol drwy'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i greu dull sylfaenol cyffredin sy'n adeiladu ar lawer o'n prosiectau ESF presennol ac yn trosi eu hegwyddorion yn ddull mwy cynaliadwy ar gyfer Gogledd Cymru i gyd.

**Adran 12: Addysg Bellach a Phrentisiaethau**

Y consensws ar draws y rhanbarth o ran cynllunio Addysg Bellach yw bod ffocws clir a chyson dros y pedair blynedd diwethaf wedi bod ar leihau'r nifer mewn darpariaeth di-flaenoriaeth ar draws Gogledd Cymru, a bod y ddarpariaeth bresennol ar gyfer y ddau goleg AB yn adlewyrchu galw ein marchnad lafur, a Chynllun Sgiliau a Chyflogaeth yr RSP.

Mae'r ddau goleg AB wedi gweithio'n dda mewn partneriaeth â'r RSP ac fel rhanbarth i gyrraedd y ddarpariaeth optimaidd hon sy'n adlewyrchu cynlluniau a rhagolygon yr RSP er mwyn ymateb i fuddsoddiadau mawr ynghyd â bod yn fwy ymwybodol o'r digideiddio a'r awtomeiddio fydd yn effeithio ar bob sector.

Gyda'r rhagolygon o ddirywiad demograffig am y ddwy flynedd nesaf yn y rhanbarth, rydym felly ar ryw fath o lwyfandir a bydd unrhyw leihad yn y ddarpariaeth yn arwain at ddileu dosbarthiadau a chyrsiau, a dim darpariaeth o gwbl mewn rhai meysydd pwnc.

Mae trafodaethau manwl rheolaidd rhwng RSP Gogledd Cymru a rheolwyr cwricwlwm yn Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria wedi gweld y ddau sefydliad Addysg Bellach yma'n cyflwyno toriadau i'w darpariaeth dros y ddwy i dair blynedd diwethaf. Mae'r toriadau a gyflwynwyd eisoes yn y meysydd y bu ymgynghori a chydweithredu arnynt â'r RSP ac a adlewyrchir yn ein Cynlluniau Blynyddol, yn enwedig ers 2015, wedi arwain at lefel ddarpariaeth sy'n rhanbarthol briodol ar gyfer 2018-19 a thu hwnt, ac sy'n unol â'r galw presennol a disgwyliedig.

Gyda lefel y ddarpariaeth ran amser bresennol o 14%, a llawn amser o 86% yn y rhanbarth, mae'r ddau sefydliad AB yn canolbwyntio ar gynyddu eu darpariaeth llawn amser ymhellach a lleihau eu darpariaeth ran amser. Yn lle lleihau'r ddarpariaeth, bydd hyn yn arwain at gynnydd cyffredinol ar draws llawer o raglenni heb orfod torri llawer o gwbl i gydbwyso hyn, oherwydd yr arbedion a wnaed hyd yma a datblygiadau a gynlluniwyd, a hyn er gwaetha'r cyhoeddiadau diweddar a'r ansicrwydd mewn sectorau fel awyrofod ar ôl 2019, y byddwn yn eu monitro a'u hadolygu mewn cydweithrediad â'n partneriaid fel bo angen.

Mae'r cynnydd a awgrymir gan yr ymarfer hwn yn dangos ychydig o dwf yn y sectorau blaenoriaeth presennol, yn barod ar gyfer y dyddiadau dechrau amodol, y galw a'r sgiliau mwy hirdymor y disgwylir y bydd eu hangen ar gyfer adeiladu prosiectau mawr fel Wylfa Newydd.

Mae'r rhesymeg dros yr ychydig gynnydd ar Lefel 2 a 3 yn adlewyrchiad o'r ddarpariaeth a gynlluniwyd ar gyfer 2018/19 o gofio bod y niferoedd cohort mewn ysgolion yn dewis cyrsiau ôl 16 tebyg. Er bod y niferoedd llai ar gyfer Lefel 3 yn amlwg yn adlewyrchu'r nifer sy'n symud o'r cyrsiau hyn at brentisiaethau, rydym yn rhagweld lle mae cynnydd disgwyliedig ar Lefel 1 neu 2 yn 2018/19 y bydd hyn yn arwain at beth cynnydd yn 2019/2020.

Gallai'r risg o leihau darpariaeth y sectorau blaenoriaeth effeithio ar niferoedd NEET yn y rhanbarth a chynyddu'r gyfradd sy'n dewis gadael AB oherwydd diffyg dewis, ond mae'n werth nodi bod ein niferoedd NEET yng Ngogledd Cymru'n is na mewn rhannau eraill o Gymru.

Dylid nodi bod yr ymarfer hwn yn anodd ei gyflawni pan fydd rhaglenni newydd, fel 'Estynedig' a 'Carlam', yn cael eu cyflwyno gan effeithio ar barhad. Hefyd, cyflawnir yr ymarfer hwn heb ystyried y dewisiadau cyrsiau galwedigaethol ôl 16 sydd ar gael mewn ysgolion a bydd unrhyw gynlluniau i gynyddu a lleihau'r ddarpariaeth yn y mannau hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth AB.

Dylid hefyd nodi data diweddar gan Ffederasiwn Meistr Adeiladwyr Cymru yn dilyn eu harolwg (Gorffennaf 2018) yn tynnu sylw at y prinder sgiliau sy'n wynebu'r diwydiant adeiladu yng Nghymru, gyda dau o bob tri busnes adeiladu bach a chanolig yn cael trafferth dod o hyd i fricwyr a 60% yn cael trafferth dod o hyd i seiri coed a seiri dodrefn.

Fodd bynnag, yng Ngogledd Cymru, nid problem ddarpariaeth yw hi ond ymdrechion denu a hyrwyddo'r diwydiant i gael pobl ifanc i ddilyn astudiaethau a phrentisiaethau yn y diwydiant. Mae ein dau ddarparwr addysg bellach yn enwedig wedi gweithio'n agos â'r diwydiant yng Ngogledd Cymru i fuddsoddi mewn cyfleusterau newydd a darparu cyrsiau i ateb anghenion cyflogwyr sydd yna'n cael eu hyrwyddo drwy fforymau fel yr RSP, ond eto nid yw denu myfyrwyr i'r cyrsiau hyn yn cwrdd â'r galw.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae partneriaid DYSGU SEILIEDIG AR WAITH (WBL) y rhanbarth wedi gwneud ymdrechion anferth i ganolbwyntio ar ddarparu WBL ar gyfer sectorau blaenoriaeth ac ar hyn o bryd yn darparu dros 90% o'r rhaglenni ar gyfer y sectorau blaenoriaeth rhanbarthol.

Mae'n anodd blaenoriaethu lleihad ar gyfer meysydd di-flaenoriaeth fel trin gwallt oherwydd ymgysylltiad busnesau BBaCh mewn WBL yn y rhanbarth sy'n dangos bod galw o hyd am hyfforddiant ar gyfer sectorau di-flaenoriaeth fel trin gwallt. Sectorau yn yr economi sylfaenol yw'r rhain yn bennaf, sy'n rhan hanfodol o'r economi ac yn ffurfio'r gadwyn gyflenwi sy'n ategu'r sectorau blaenoriaeth. Mae'r galw gan gyflogwyr am hyfforddiant trin gwallt a therapi harddwch yn ddiwydiant egnïol o hyd yn y rhanbarth ac mae gan stryd fawr amryw byd o drefi fusnesau trin gwallt hirsefydlog a llwyddiannus. Os bydd darparwyr dysgu seiliedig ar waith yn parhau i leihau nifer y prentisiaethau trin gwallt, ni fyddant mwyach yn cwrdd â'r galw gan gyflogwyr yn y rhanbarth.

Er mwyn bod yn gystadleuol, mae angen i ddarparwyr WBL ymateb ar fyr rybudd i'r galw a'r newidiadau yn y farchnad lafur ac felly mae rhagolygon tair blynedd yn anodd.

Mae'r ardoll brentisiaethau'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar greu mwy o alw am brentisiaethau gan gyflogwyr. Gyda chyllid a marchnata ychwanegol, mae potensial i gynyddu nifer y prentisiaethau o flwyddyn i flwyddyn heb leihau darpariaeth y sector di-flaenoriaeth. Fodd bynnag, gyda 67% o fusnesau yng Ngogledd Cymru'n cyflogi llai na phump o bobl, rydym yn parhau i orfod cydweithio gyda'n gilydd fel rhanbarth ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru a chyrff cenedlaethol i hyrwyddo ein barn ni fel RSP fod prentisiaethau'n ffordd hynod gost-effeithiol i fusnesau o bob maint ddiogelu eu busnes at y dyfodol drwy dyfu eu talent.

Mae darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith o dan bwysau cynyddol i gwrdd â thargedau Llywodraeth Cymru nad ydynt yn gyfaddas i anghenion cyflogwyr a'r farchnad lafur ac sydd hefyd yn gwrthweithio yn erbyn polisïau eraill, fel lleihau nifer y bobl ifanc NEET 16-24 oed. Yn y rhanbarth mae rhaglen ESF yn targedu pobl ifanc 16-24 oed NEET, ond nod cyfarwyddeb Llywodraeth Cymru yw lleihau nifer y lleoedd prentisiaeth sydd ar gael i bobl ifanc 20+ oed ar gyfer hyfforddiant Lefel 2.

Mae'r duedd barhaus o dorri'n ôl ar brentisiaethau Lefel 2 i bobl ifanc hyd at 24 oed yn cynyddu'r risg o lefelau NEET uwch, yn lleihau opsiynau a chyfleoedd i rai ar brosiectau ESF a hefyd yn cyflwyno'r risg bod cyflogwyr yn colli ystôr bosib o lafur i lenwi swyddi gwag.

Mae darparwyr WBL yng Ngogledd Cymru eisoes wedi gwneud toriadau i'w darpariaeth dros y ddwy i dair blynedd diwethaf yn y meysydd y bu ymgynghori a chydweithredu arnynt â'r RSP. O ganlyniad crewyd lefel ddarpariaeth bresennol, ac ar gyfer y dyfodol, sy'n rhanbarthol briodol ac sy'n unol â'r galw presennol a disgwyliedig. Bydd unrhyw gynnydd mewn toriadau i'r ddarpariaeth yn y dyfodol agos felly'n cyflwyno risg wirioneddol na fydd y galw gan gyflogwyr yn cael ei gwrdd ac na fydd cyfleoedd cynaliadwy a lleol i bobl ifanc.

## Adran 13: Cronfa Datblygu Sgiliau

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi croesawu cynnig Llywodraeth Cymru ar ddiwedd Ebrill 2018 i sefydlu Cronfa Datblygu Sgiliau ar gyfer cyflwyno cynigion sydd eu hangen erbyn dechrau Mehefin 2018.

Dyfeisiwyd y Gronfa i gynorthwyo darparwyr addysg bellach i lenwi bylchau sgiliau penodol yn y rhanbarth sy'n cyd-fynd â'r bylchau sydd wedi'u hadnabod a'u cefnogi gan yr RSP a fu'n gweithio gyda darparwyr AB ar draws y Gogledd ar ôl cynnal trafodaethau â holl bartneriaid yr RSP i gyflwyno cynigion sy'n cyd-fynd ac yn dilyn brîff LlC.

Drwy drafodaethau â'r RSP, rydym wedi canfod bod angen cymorth ychwanegol yn y meysydd sy'n ymwneud â sgiliau cyflogadwyedd, digidol a TG yn ogystal â sgiliau galwedigaethol ehangach, a fyddai'n berthnasol i lawer o'n sectorau allweddol a thwf, gan hyrwyddo trosglwyddo sgiliau'n gyffredinol ar lefelau 1 - 3.

Ar ddiwedd y flwyddyn gyllid gyntaf hon, byddem yna mewn sefyllfa well i oleuo'r cam nesaf tuag at sgiliau lefel uwch a chanfod atebion mwy arloesol, ar ôl profi'r ymgysylltu a'r galw yn ystod y flwyddyn gyntaf hon.  Nod creiddiol i bartneriaid Gogledd Cymru yw ein bod yn cytuno i sicrhau ein bod yn cwrdd ag anghenion lleol drwy asesiad cychwynnol, ac er ein bod yn disgwyl y bydd angen ymyriadau lefel is ar unigolion i ddechrau yn y flwyddyn gyntaf hon, gallwn gynnig unrhyw raglen briodol rhwng lefel mynediad a lefel 3. Fel rhanbarth rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol, ac er yn dilyn y brîff gan LlC, bod angen i ni ddangos rhaniad clir rhwng y Gronfa hon a pheidio â dyblygu'r ddarpariaeth gyda'r Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau.

Y dull y penderfynwyd ei ddefnyddio oedd 'cais ymbarél' trosfwaol ar gyfer Gogledd Cymru, mewn tair rhan – un gan bob un o'r ddau brif ddarparwr Addysg Bellach yng Ngogledd Cymru sef Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai, a thrwy hefyd gynnwys Addysg Oedolion Cymru sydd, er ei fod yn gorff Cymru gyfan, yn parhau i ymgysylltu â nifer sylweddol lai o ddysgwyr ar draws Gogledd Cymru, mewn cymhariaeth.

Mae pob darparwr wedi ymateb i gyfarwyddyd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol gan ddefnyddio eu harbenigedd a'u gwybodaeth i adnabod sut y medrant gydweithio i fynd i'r afael â hyn, oherwydd cytunwyd fod angen ffocws ar y sectorau a'r sgiliau sy'n cyfateb i anghenion yr Economi Sylfaenol yng Ngogledd Cymru a bod angen cefnogi'r ddarpariaeth sgiliau rhan amser i ddangos mwy o hyblygrwydd ac arloesi gyda chwrdd a chefnogi'r anghenion sgiliau a darpariaeth ar draws ein rhanbarth.

Cytunwyd y byddai'r ddarpariaeth yn gweld pob darparwr yn darparu rhaglenni mewn meysydd prosiect clir a phenodedig ac yn cyd-fynd â rhaglenni cyllid DFES, gan gynnwys: Sgiliau Cyflogadwyedd (gan gynnwys llythrennedd a rhifedd); Llythrennedd Digidol; a Hyfforddiant Galwedigaethol, gan hyrwyddo cyfle a mynediad cyfartal i bob cohort o'n poblogaeth breswyl.

Drwy ddefnyddio cymysgedd o gymwysterau asesedig a di-asesedig cyffredinol, byddai'r ffocws ar bobl a gyflogir mewn swyddi llawn / rhan amser i gefnogi'r sgiliau sydd eu hangen i ddringo'r ysgol waith ac sy'n ychwanegu gwerth pellach i'w cyflogwr, yn enwedig rhai sy'n ennill cyflogau o gwmpas neu o dan y cyflog byw cenedlaethol; neu rai sy'n hunan-gyflogedig ac sydd angen sgiliau arnynt i ddatblygu ac ehangu eu busnes neu efallai i gyflogi mwy o staff.

## Adran 14: Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau

Fel rhaglen a ddyfeisiwyd i gefnogi darpariaeth addysg bellach er mwyn datblygu dulliau mwy arloesol ac ymatebol i gwrdd ag anghenion cyflogwyr, mae Rhaglen Blaenoriaethau Sgiliau Gogledd Cymru wedi gweld gweithio cydweithredol rhwng partneriaid gyda'r wybodaeth a gyhoeddwyd yng Nghynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol y tair blynedd diwethaf yn nodi ei bod wedi cyfrannu'n uniongyrchol at ddylanwadu a goleuo'r broses o adnabod y sgiliau technegol a swydd-benodol lefel uwch sydd eu hangen ar gyflogwyr ar draws y rhanbarth.

Drwy gyfuniad o gynrychiolwyr sector a chyflogwyr ar y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, y berthynas waith ragorol sydd gan ein darparwyr â nifer o gyflogwyr yn y rhanbarth ynghyd â'r mewnbwn a'r wybodaeth a enillwyd gan ein sefydliadau busnes a chyflogwyr, gyda'n gilydd rydym yn parhau i weithio'n gydweithredol fel rhanbarth i adnabod y cyfleoedd, yr heriau a'r meysydd twf ar gyfer y sgiliau lefel uwch y gwyddom sydd eu hangen ac y medrant ddarparu cyflogaeth gynaliadwy a thwf economaidd cadarnhaol.

Mae llawer o'r ymyriadau a'r ddarpariaeth oedd mewn golwg i gefnogi sgiliau lefel uwch eisoes wedi eu rhoi yn eu lle yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i ymgysylltu a thrafodaethau agored rhwng partneriaid yr RSP, arweinwyr diwydiant a chyflogwyr yma yng Ngogledd Cymru.

Ein gwaith yn syml felly yw parhau i fonitro ac addasu fel bo angen, gan adeiladu ar bortffolio cryf o adnoddau a chymorth yng Ngogledd Cymru sy'n dangos ein hymgysylltu parhaus – yn aml drwy barhau i drafod yn anffurfiol â chyflogwyr mewn ystod eang o gyfarfodydd a digwyddiadau, heb fod angen gweithgorau ychwanegol ar yr RSP, oherwydd gwnawn ddefnydd effeithiol o'r fforymau a'r rhwydweithiau hynny sydd eisoes yn bodoli, er mwyn dangos mwy o synergedd ac effeithiolrwydd.

Ar gyfer 2018-19 rydym wedi parhau i hyrwyddo a chydnabod y bydd angen sgiliau lefel uwch ar draws llawer o'n sectorau allweddol a thwf, i baratoi ac ymateb i ddatblygiadau a galwadau economaidd ar draws y rhanbarth ond gan hefyd hyrwyddo'r llwybrau tuag at y Prentisiaethau Gradd newydd fel un math o gyfle.

Mae Creadigol a Digidol yn un enghraifft o sector dwf yn y rhanbarth, fel yn genedlaethol, lle mae angen uwchsgilio'r gweithlu presennol ac yn y dyfodol gyda sgiliau lefel uwch wrth i ni weld mwy o awtomeiddio, yn enwedig yn ein sectorau allweddol, a hefyd yr angen i fod yn gynyddol fwy rhagweithiol wrth ymateb i Ddiwydiant 4.0.

Mae rhagolygon yr adroddiad Dyfodol Gwaith yn cefnogi ein hymchwil a'n trafodaethau ein hunain â chyflogwyr, ac y bydd twf sylweddol mewn galwedigaethau lefel uwch yn y sector yma dros y pum mlynedd nesaf. Yn ôl arolwg o'r sector creadigol yng Ngogledd Cymru a gefnogir gan yr RSP, mae prinder dybryd o ddatblygwyr meddalwedd a chaledwedd TG yn y rhanbarth, a thrwy ymateb i hynny bod angen i ni hyfforddi, addysgu a chynyddu darpariaeth i ddenu pobl i'r rhaglenni hyn ac i gyfleoedd cyflogaeth gwerth uchel yn y rhanbarth.

Drwy ein cysylltiadau uniongyrchol, ar y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, i'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol a hefyd drwy ein hymgysylltu rhagweithiol a thrwy fynychu gwahanol rwydweithiau arweinwyr ac ymarferwyr rhanbarthol ar draws Gogledd Cymru, gwyddom fod angen i ni fel rhanbarth ymateb drwy gynyddu'r ddarpariaeth oherwydd y prinder parhaus o staff lefel uwch yn y proffesiwn iechyd a gofal sydd heb gymwysterau priodol.

Ystyrir bod cynyddu sgiliau a chymwysterau'r gweithlu er mwyn buddsoddi mewn a chadw staff, a buddsoddi mewn sgiliau a chymwysterau rhanbarthol, yn angen allweddol i'r sector i ateb y galw presennol ac i ddod yng Ngogledd Cymru. Bydd hyn ochr yn ochr â galw uwch a chynnydd yn y ddarpariaeth WBL oherwydd y gofynion deddfwriaethol i uwchsgilio a chofrestru staff gofal.

Mae cefnogaeth hefyd ar draws y rhanbarth, fel angen a ffocws allweddol, i gynllunio ar gyfer cynnydd mewn sgiliau Lefel 4 ac uwch i gefnogi Peirianneg, Gweithgynhyrchu ac Adeiladu'n gyffredinol; yn enwedig i baratoi am effaith uniongyrchol Wylfa Newydd ar Ynys Môn a hefyd ei effaith ehangach ar ddiwydiannau a sgiliau ar gyfer ei gadwyni cyflenwi yn y sectorau yng ngogledd-ddwyrain Cymru, o gwmpas Glannau Dyfrdwy a Wrecsam, yn enwedig.

Er bod datblygiad y rhaglen AMRI gwerth £20m yng Nglannau Dyfrdwy wedi'i chroesawu a'i chefnogi gan yr RSP, ynghyd â datblygiadau newydd fel Parc Gwyddoniaeth Menai a'r Ganolfan Economi Wledig arfaethedig yng Nglynllifon, fel sefydliadau disglair i'w hyrwyddo ac i ddarparu sgiliau lefel uwch, yn enwedig ar STEM; mae hefyd angen i ni roi ateb problemau o ran mynediad at ddarpariaeth a darparu sgiliau lefel uwch yn yr Iaith Gymraeg ar draws Gogledd Cymru.

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr RSP ar Sgiliau Iaith Gymraeg yn Economi Gogledd Cymru, mae llawer o'n partneriaid RSP yn adrodd trafferthion parhaus gyda dod o hyd i staff ac aseswyr dwyieithog ar gyfer peirianneg, gyda thrafferthion tebyg gyda thiwtoriaid a darlithwyr sy'n gyfrifol am sgiliau lefel uwch yn y sector adeiladu. O gyplysu hyn â phrinder hysbys o siaradwyr Cymraeg gyda ffocws penodol ar sgiliau lefel uwch mewn TG, cyfrifiadureg a chodio, mae angen i ni weithio'n fwy rhagweithiol fel rhanbarth a gofyn am gymorth gan Lywodraeth Cymru i gynnig atebion i'r problemau hyn, a hyn mewn rhanbarth, yn ôl yr hyn a gyhoeddwyd yng Nghynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 2017, lle mae gan 81% o fusnesau yng Ngogledd Cymru staff gyda sgiliau Iaith Gymraeg a 57% o'r cyflogwyr hynny'n barnu bod cael staff gyda sgiliau Iaith Gymraeg yn bwysig.

**Adran 15: ESF**

Mae'r rhanbarth yn parhau i weithredu a chefnogi prosiectau ESF yn unol â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol, wrth i RSP Gogledd Cymru hwyluso a chefnogi datblygu chwech o brosiectau ESF rhanbarthol i gyd-fynd ac ychwanegu gwerth at ddarpariaeth asgwrn cefn genedlaethol. Llwyddodd bob un o'r prosiectau oedd mewn golwg i dderbyn cyllid ESF gan WEFO gyda 'STEM y Gogledd' y rhaglen ranbarthol ddiweddaraf i dderbyn cyllid yn 2018, fel ymateb i anghenion oedd wedi eu hadnabod yn Archwiliad STEM blaenorol yr RSP a wnaed yn 2015-16.

Mae datblygiad pob un o'r prosiectau ESF rhanbarthol wedi deillio o'n dull ymgynghorol o weithio gyda phartneriaid i gadarnhau beth yw anghenion y rhanbarth, i rannu gwybodaeth a data am dueddiadau yn y rhanbarth a thrwy ddarparu gwybodaeth arbenigol. Drwy ein rôl o gydlynydd a phwynt cyswllt canolog a gweladwy, rydym wedi gallu bod yn gyfaill beirniadol a phartner diduedd parhaus gan helpu i ddadansoddi ac adolygu datblygiadau, darparu swyddogaeth cymorth ymchwil i arweinwyr y prosiectau a pharhau i arwain ar hwyluso rhwydweithiau a gweithdai drwy weithio gyda'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol ac yn uniongyrchol gyda'r prosiectau eu hunain.

Mae'r holl brosiectau rhanbarthol yn asio'n dynn i'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth ac wedi defnyddio data cyfredol a chyson i ddangos cyfaddasrwydd strategol a dadansoddiad o'r angen yn y rhanbarth, a'u bod yn wahanol i brosiectau a strategaethau cenedlaethol. Mae Cynlluniau Busnes yr holl brosiectau yn cyfeirio at, yn defnyddio data o, ac yn dyfynnu o'r Cynllun Sgiliau Rhanbarthol i oleuo'r gofynion a'r adran ar gyfaddasrwydd strategol yn enwedig. Mae unrhyw brosiectau ESF newydd (cenedlaethol, rhanbarthol neu arbenigol) yn cael eu prawfesur yn ffurfiol ac yn rhanbarthol gan y Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol – sy'n ymgynghori â'r RSP i sicrhau eu bod yn gyson â'r cynllun.

Gyda sefydlu tîm yr RET, un o'r gofynion ffurfiol gan WEFO yw bod pob prosiect ESF newydd yn cael ei brawfesur yn rhanbarthol. Mae'r RET yn sicrhau yr ymgysylltir â'r holl randdeiliaid perthnasol gan hwyluso trafodaethau, cydweithredu a sicrhau cyfaddasrwydd y prosiect â strategaethau / cynlluniau rhanbarthol perthnasol, bod y buddsoddiad arfaethedig yn cyweddu ac yn ychwanegu gwerth ac nad yw'n dyblygu unrhyw weithgarwch arall. Fel rhan o'r broses prawfesur rhanbarthol (ar gyfer ESF ac ERDF), rhoddir sylw penodol i sicrhau bod y prosiect yn gyson â'r Cynllun Sgiliau Rhanbarthol – mae Rheolwr Rhaglen yr RSP yn chwarae rhan lawn yn y broses prawfesur.

Sicrheir ymgysylltu parhaus rhwng y gwahanol brosiectau ESF rhanbarthol drwy'r Rhwydweithiau Cymorth ESF Rhanbarthol a sefydlwyd fel un o is-grwpiau ffurfiol yr RSP ei hun. Gyda'r ddau rwydwaith (un ar gyfer P1 a P3 a'r llall ar gyfer P2 a P4) mae swyddogion yr RET a'r RSP yn mynychu i roi cymorth i sicrhau bod prosiectau ESF sydd eisoes yn weithredol yng Ngogledd Cymru'n gyson a chyfaddas. Mae cysondeb y cydweithredu i osgoi dyblygu a chysondeb y cymorth wedi'i wella ymhellach wrth fod Rheolwr Rhaglen yr RSP yn cadeirio'r ddau rwydwaith ESF bellach cyn y penodir Rheolwr RET newydd ar ddiwedd 2018.

Mae gan bob prosiect rhanbarthol sydd wedi'i ddatblygu strategaeth ymadael fel un o ofynion cyllid yr ESF. Parheir i werthuso hyn wrth i bolisïau newydd ymddangos yn wyneb Brexit ac wrth i bolisïau cyflogadwyedd cenedlaethol gael eu diwygio etc. Mae'r holl brosiectau ESF / sefydliadau a phartneriaid arweiniol yn cyfrannu at weithgarwch presennol yr RSP ar ymgysylltu rhanbarthol, er enghraifft ar sicrhau y parheir i ddarparu canlyniadau cynaliadwy a chadarnhaol i helpu i gefnogi a goleuo'r gwaith ar Fargen Twf y Gogledd, ar sicrhau gweledigaeth dwf gynaliadwy'n dilyn Brexit, ar gyfer gweithgareddau a blaenoriaethau a gyflwynir ar hyn o bryd gan ein prosiectau.

## Adran 16: Data Cyflogadwyedd a Rhanbarthol i oleuo Cymru'n Gweithio

Nid bwlch sgiliau yw'r brif her ar gyfer y rhanbarth ond sut i ganfod atebion i fwlch gweithlu'r rhanbarth pan fydd prosiectau mawr fel Wylfa Newydd yn dechrau recriwtio gweithwyr adeiladu.

Er bod gennym nifer o sgiliau yn y rhanbarth, problem y galw am weithwyr cyfnewid o bosib yw'r her fwyaf i'r rhanbarth oherwydd gallai pob sector wynebu'r risg yma wrth i weithwyr symud at brosiectau mawr o arwyddocad rhanbarthol a chenedlaethol yng Ngogledd Cymru ac mae'n anochel y bydd cyflogau uchel a'r cyfle i barhau i ennill cyflog uchel am flynyddoedd yn dynfa i lawer.

Mae RSP Gogledd Cymru a'i phartneriaid wedi gwneud defnydd gweithredol o'r data a'r dadansoddiad yn yr adroddiad Dyfodol Gwaith diwethaf i ddeall yn fwy manwl pa rolau y bydd angen eu llenwi yn y 5-10 mlynedd nesaf.

Yng Ngogledd Cymru mae hyn yn amrywio o hyd at 34% o alw cyfnewid am grefftau medrus yn y sectorau ynni ac amgylchedd hyd at 2024; i hyd at 40% o alw cyfnewid am grefftau medrus yn y sectorau peirianneg ac uwch-weithgynhyrchu.

Yn ôl arolwg cyhoeddedig diweddar Ffederasiwn Meistr Adeiladwyr Cymru a dadansoddiad ar y cyd rhwng yr RSP a CITB Cymru o effaith Wylfa Newydd ar sgiliau adeiladu yn y rhanbarth, gwyddom y bydd angen hyd at 34% o alw cyfnewid am grefftau adeiladu medrus hyd at 2024 a hynny ar ben y rolau newydd sy'n cael eu creu ynghyd â'r corddi anochel fydd yn digwydd yn y busnesau llai presennol wrth i staff adael i weithio ar brosiectau mwy a thymor hirach.

Byddai'r gweithlu adeiladu preswyl presennol ar Ynys Môn, pe cyflogid hwynt i gyd yn Wylfa Newydd, ond yn cwrdd â phumed ran o'r gweithlu y bydd yn debygol o fod ei angen o ystyried y bydd angen tua 8,500 o bobl ar y prosiect pan fydd yn ei anterth yn 2023-24. Mae hyn yn cryfhau ymhellach bod angen i'r holl gyrff proffesiynol yn y sector adeiladu weithio gyda'i gilydd i helpu i hyrwyddo'r cyfleoedd gyrfaoedd a'r cyfleoedd sgiliau ehangach sydd ar gael er mwyn gallu llenwi'r lleoedd a ddarperir eisoes ar gyrsiau priodol a pherthnasol gan ein darparwyr, ond eto sy'n wag.

Rydym hefyd wedi adnabod yng Ngogledd Cymru y bydd angen 23% o bobl newydd ychwanegol arnom mewn galwedigaethau proffesiynol yn y sector ynni ac amgylchedd hyd at 2024; 13% yn fwy o fricwyr yn y rhanbarth hyd at 2022; 12% yn fwy o beintwyr ac addurnwyr o'i gymharu â'r gweithlu presennol; a 7% yn fwy o beirianwyr sifil.

Mae pob rhan o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru'n parhau i wynebu problemau staffio a sgiliau sylweddol, sefyllfa nad yw'n cael ei helpu gan yr ansicrwydd ar Brexit a'r dibynnu trwm ar staff mudol o'r UE i gyflawni rolau na ellir eu llenwi gan y farchnad lafur ddomestig ranbarthol. Yng Ngogledd Cymru mae'r prinder staff a sgiliau yn y sector iechyd wedi gweld gwariant BCUHB ar staff locwm yn dyblu rhwng 2012 a 2016 (6.3% o'r cyfanswm costau llafur ar staff heb fod yn barhaol) gan bwysleisio ymhellach y trafferthion gyda recriwtio a chadw staff yn y sector.

Un o'r prif rwystrau cyflogaeth ymhlith pobl ifanc NEET 16-24 oed yng Ngogledd Cymru yw iechyd meddwl. Gan weithio drwy ADTRAC, prosiect ESF wedi'i ysgogi gan yr RSP, mae canfyddiadau'n dilyn ymgynghori â sefydliadau partner fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi canfod bod problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl

sy'n effeithio ar gapasiti unigolion i benderfynu ynghylch addysg, hyfforddiant a / neu gyflogaeth hefyd yn dod yn rhwystrau i gyflogadwyedd. Fodd bynnag, mae'r prosiect yn gweithio'n arloesol i ddileu'r rhwystrau hyn drwy ddarparu cwnsela, therapi ac ymyriadau pwrpasol i'r unigolion dan sylw.

I gefnogi dealltwriaeth ac i hyrwyddo cyflogadwyedd yn gyffredinol, rydym wedi gweithio gyda'r DWP, Gyrfa Cymru a GwE, ochr yn ochr â chyflogwyr fel Harlech Foods, Griffiths Civils a Horizon Nuclear Power i ddatblygu adnodd ar-lein a fideo sy'n holi barn cyflogwyr ac yn nodi eu disgwyliadau, i'w hyrwyddo gydag ysgolion ar draws Gogledd Cymru. Mae hyn yn cryfhau ein perthynas agos ymhellach fel RSP sy'n gweithio gyda'r consortiwm ysgolion rhanbarthol, GwE, i helpu i lunio a datblygu cynigion ar gyfer y cwricwlwm newydd sy'n adlewyrchu lleisiau cyflogwyr, anghenion sgiliau'r dyfodol a mwy o sgiliau galwedigaethol i gefnogi cyflogadwyedd mwy cyflawn.

## Adran 17: Ysgolion ac Awdurdodau Addysg Lleol

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi gweithio'n galed gyda darparwyr addysg a'r arweinwyr sy'n gyfrifol am ysgolion i greu, cynnal ac ehangu ar berthynas sy'n hyrwyddo pwysigrwydd sgiliau a llwybrau cyflogaeth mewn ysgolion ar draws y rhanbarth, ac i ddatblygu'r cwricwlwm yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Rydym wedi sicrhau bod Cydgysylltwyr 14-19, Pwyllgorau EPC Rhanbarthol a GwE wedi eu cynrychioli ar Ffrwd Waith yr RSP yn ogystal â chynrychiolaeth gan awdurdodau lleol er mwyn rhaeadru'r wybodaeth i Adrannau Addysg Awdurdodau Lleol.

Mae Rheolwr Rhaglen Rhanbarthol (Sgiliau a Chyflogaeth) yr RSP yn aelod o Fwrdd Ymgynghorol y Consortiwm Addysg Ysgolion Rhanbarthol, GwE, sy'n rhoi cyfle i drafod a thynnu sylw at gyfleoedd perthnasol i siarad am faterion perthnasol, ac mae Cyfarwyddwr GwE yn ei dro'n aelod o Fwrdd yr RSP.

Yn ysgil cydweithredu agosach â GwE dros y 12 mis diwethaf, yn dilyn llwyddiant CAMAU STEM, mae'r RSP wedi cael cyfle i gyflwyno gwaith i'r Ysgolion Arloesol rhanbarthol a gweithio gyda nhw'n uniongyrchol i helpu i oleuo a chyfarwyddo gwaith cynllunio ar gwricwlwm y dyfodol, ar sail anghenion sgiliau a chyflogaeth yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys parhau i weithio ar ddatblygu modiwlau peilot yn unol ag ymdrechion y rhanbarth i ddatblygu a darparu Dyfodol Llwyddiannus.

Mae'r gwaith y bu'r RSP yn arwain arno gyda'n partneriaid addysg ers 2015, i adnabod cymorth i rai 16-24 oed sydd mewn perygl o fynd yn NEET, wedi gweld mwy o gynnydd mewn cydweithrediad â phartneriaid addysg ac ysgolion. Rydym yn ddiweddar wedi adolygu ein cronfa ddata o Gymorth a Darpariaeth ranbarthol ar gyfer y cohort hwn, mewn cydweithrediad â chwe phwyllgor EPC awdurdod lleol y rhanbarth, gan fynychu digwyddiadau ein partneriaid i hyrwyddo a diweddaru'r adnodd ar-lein hwn sydd ar gael am ddim ac sy'n cynnwys hyrwyddo dysgu galwedigaethol.

Mae ein hymgysylltu parhaus ag ysgolion ar amrywiaeth eang o themâu rhyng-gysylltiedig yn dod yn fwyfwy pwysig oherwydd mae rhan o ffocws yr RSP ar gysoni gweithlu'r dyfodol ag anghenion ein heconomi ranbarthol.

Dyma grynodeb o'n gweithgarwch, cymorth a'n cydweithrediad diweddar ag ysgolion a phartneriaid addysg (cyn 16 oed) dros y flwyddyn ddiwethaf:

- Yn ogystal â chyflwyno CAMAU STEM i'r 360 o ysgolion cynradd, rydym yn parhau i hyrwyddo hyn yn rheolaidd mewn digwyddiadau hyfforddiant athrawon ffurfiol ar draws y rhanbarth.
- Wedi datblygu offeryn mapio i athrawon Bagloriaeth Cymru gyda Gyrfa Cymru, GwE a Horizon Nuclear Power.
- Wedi gweithio'n uniongyrchol â GwE i ddatblygu Rôl Cynghorydd Her STEM y Gogledd dros y pedair blynedd nesaf.

- Wedi cydweithredu'n agos a derbyn nawdd gan GwE i ddatblygu Adroddiad a Chynhadledd ranbarthol Gogledd Cymru ar Yr Iaith Gymraeg yn y Gweithle.
- Ni oedd un o'r partneriaid datblygu allweddol i drefnu a chynnal Cynhadledd SEREN - Gyrfaoedd i Fyfyrwyr Graddedig a chyfres o seminarau rhanbarthol.
- Roeddem yn bartner allweddol gyda darparu'r rhaglen PROFI ar gyfer myfyrwyr chweched dosbarth y rhanbarth a bu'r RSP yn cynnal sesiynau i fyfyrwyr ar opsiynau gwaith ac opsiynau i'r dyfodol yng Ngogledd Cymru gan noddi'r gystadleuaeth a'r wobr ar gyfer categori 'Mae dy ddyfodol yn ddisglair yng Ngogledd Cymru' y rhaglen PROFI.

## Adran 18: Addysg Uwch

Mae ein dwy brifysgol ranbarthol, Bangor a Glyndŵr Wrecsam, a hefyd y Brifysgol Agored, yn ymgysylltu'n effeithiol iawn ar sawl lefel gyda'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Mae Is-gangellorion Prifysgol Bangor a Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam yn aelodau presennol ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru gydag uwch-swyddogion a Dirprwy Is-Gangellorion yn cynrychioli eu sefydliadau'n rheolaidd ar y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ac ar ein gweithgorau i gefnogi'r gwaith cyfunol o ddatblygu Bargen Twf y Gogledd, er enghraifft, er mwyn cefnogi anghenion sgiliau ac economaidd y rhanbarth a'i fusnesau ar ôl Brexit.

Mae pob un o'r tri phartner addysg uwch yn cyfrannu mewnbwn rheolaidd i Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth blynyddol y rhanbarth, gan ymgysylltu a hyrwyddo'n helaeth ar draws yr adrannau i gyd, yn fewnol gyda'r meysydd darparu academaidd a hefyd gyda'r adrannau allanol sy'n cefnogi ymgysylltu gyda busnesau a'r gymuned.

O ganlyniad i'r cydweithredu cryf a chynhyrchiol hwn rhwng ein partneriaid addysg uwch, mae Rheolwr Rhaglen yr RSP wedi bod yn rhoi darlithoedd gwadd rheolaidd ers 2015 i fyfyrwyr Prifysgol Bangor ar dueddiadau a chyfleoedd yn y farchnad lafur ranbarthol yng Ngogledd Cymru, ac mae Glyndŵr Wrecsam wedi integreiddio Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth NWEAB o fewn Fframwaith Strategol eu Prifysgol (2015-2020) i gysoni eu hymrwymiadau canolog i'r cyfeiriad strategol sy'n cael ei hyrwyddo gan yr RSP.

Wedi'i ysgogi gan yr RSP a'i hwyluso mewn partneriaeth yn ystod ei ddatblygiad, mae ein darparwyr addysg uwch bellach yn gweithio'n gyfunol ag addysg bellach ar draws y rhanbarth fel rhan o 'Academi Fusnes Gogledd Cymru', prosiect sydd wedi'i gyllido gan yr ESF ac sy'n darparu credydau Addysg Uwch dysgu hyblyg i gyflogwyr sydd am dyfu eu busnes ac sy'n chwilio am gymorth, cyngor, ysbrydoliaeth ac atebion penodol i ddatrys heriau a rhwystrau i'w twf.

Er yn defnyddio'r sectorau allweddol a thwf yn y Cynllun Sgiliau i dargedu busnesau i gymryd rhan, mae'r prosiect yn estyn croeso agored i bob busnes i hyrwyddo sgiliau lefel uwch er mwyn paratoi cyflogwyr i fuddsoddi mewn cynllunio olyniaeth ar gyfer eu staff rheoli, lle mae bwlch sgiliau'n debygol o fod dros y 10-15 mlynedd nesaf oherwydd gweithlu sy'n heneiddio, ac i aros yn gystadleuol a chynaliadwy'n dilyn Brexit.

Mae gan Brifysgolion Bangor a Glyndŵr Wrecsam bartneriaethau hirsefydlog â nifer o ddarparwyr addysg eraill ar draws y rhanbarth a thros y ffin. O gytundebau Partneriaeth a Masnachfraint â Grŵp Llandrillo Menai a Choleg Cambria a chytundebau Memorandwm Dealltwriaeth â phrifysgolion eraill fel Aberystwyth, mae gan y ddau goleg hefyd berthynas gadarnhaol a rhagweithiol ag Ysgolion a Cholegau Chweched Dosbarth ar draws y rhanbarth.

Gan adlewyrchu'r gefnogaeth i'r economi a'r farchnad lafur dros y ffin, mae Glyndŵr Wrecsam, oherwydd ei lleoliad, hefyd yn gweithio'n agos â phartneriaid yng ngogledd-orllewin Lloegr gyda pherthynas gadarn â phrifysgolion fel Wolverhampton a Chaer (yn benodol ar gyrsiau PhD) ac yng Nghymru â chydweithwyr a darparwyr yn ne Cymru fel Coleg y Drindod Dewi Sant a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.

Mae'r ddwy brifysgol yn awyddus i weithio gyda mwy o ddarparwyr ar draws Cymru, yn enwedig ar ddatblygu prentisiaethau a sicrhau bod yr agenda sgiliau'n cael ei chwrdd. Mae Prifysgol Bangor yn cydweithredu'n agos â Grŵp Llandrillo Menai ar amrywiol brosiectau fel darparu modiwlau Addysg Uwch yn y Ganolfan Reoli, Academi Fusnes Gogledd Cymru ac ar achredu'r rhan fwyaf o gyrsiau AU GLlM.

O ran 'darparwyr addysg eraill' mae'r ddwy brifysgol yn cydweithredu ac yn cyfrannu at "Ymgyrraedd yn Ehangach" gan ddarparu sesiynau mewn ysgolion cynradd, sy'n adeiladu ar y bartneriaeth a'r cydweithredu agos rhwng y ddwy brifysgol a GwE, y consortiwm addysg ysgolion rhanbarthol, wedi eu cynorthwyo gan yr RSP mewn meysydd ychwanegol yn ymwneud â meithrin gallu a chynllunio hyfforddiant cychwynnol a lleoliadau ar gyfer athrawon.

Mae'r Brifysgol Agored hefyd yn gweithio gyda myfyrwyr 'Seren' yng Nghymru; rhaglen a noddir gan Lywodraeth Cymru lle mae myfyrwyr blwyddyn 12 a 13 yn cael cyfle i gyflawni modiwlau OU byr ochr yn ochr â'u pynciau lefel A er mwyn datblygu eu sgiliau Addysg Uwch a gwella eu ceisiadau i brifysgolion. Er bod y niferoedd yng Ngogledd Cymru'n isel ar hyn o bryd, y disgwyl ar ôl dim ond dwy flynedd o ddarparu yw y bydd yn tyfu wrth i bwyslais cryfach ar gyflogadwyedd a chysylltu hynny i'r sector addysg uwch a busnesau, gael ei hyrwyddo'n fwy cyson.

Mae dros 70% o'r ddarpariaeth yn y ddwy brifysgol yn y rhanbarth wedi'i chysylltu i'r sectorau twf ac allweddol a nodir yn ein Cynllluniau Sgiliau a Chyflogaeth blynyddol blaenorol, ac mae'r cymorth sydd ar gael o ran sgiliau lefel uwch sydd angen eu cwrdd yn adlewyrchu nid yn unig flaenoriaethau'r RSP ond hefyd yr ymgysylltu uniongyrchol gyda datblygu cyfleoedd Bargen Twf y Gogledd, a'r ymatebion i fuddsoddiadau a datblygiadau prosiect allweddol ar draws y rhanbarth fel Wylfa Newydd, yr AMRI yng Nglannau Dyfrdwy a phrosiectau eraill fel Parc Gwyddoniaeth Menai ynghyd â'r cynlluniau i ehangu OpTIC, sy'n hyrwyddo sgiliau STEM yn enwedig.

Mae'r ddwy brifysgol ranbarthol a'r OU wedi buddsoddi adnoddau helaeth mewn datblygu rhaglenni prentisiaethau gradd mewn Peirianneg a Chyfrifiadura, gyda'r gwaith o adnabod a datblygu cyfleusterau a dulliau'n unol â dull Llywodraeth Cymru a HEFCW. Fel rhanbarth, gyda'r sefydliadau Addysg Uwch wedi eu cefnogi gan yr RSP, roedd hyn yn cynnwys datblygu amcan-ganlyniadau ar gyfer y ddau beilot, yn amrywio o 200+ yn fwy o raddedigion STEM o'r rhanbarth erbyn 2024, i'r datblygiadau cysylltiedig gyda chyflogwyr yn datblygu pecynnau cymorth pwrpasol yn ogystal â'r prentisiaethau gradd.

Er yn croesawu cadarnhad y Prentisiaethau Gradd Digidol a TGCh (i ddechrau ym mis Hydref 2018) sy'n adlewyrchu un o'r sectorau twf a nodir yng Nghynlluniau'r RSP o 2016 ymlaen, mae siom ymhlith y partneriaid y bydd y cynigion ar gyfer Peirianneg yn 2018 yn cael eu dal yn ôl gan olygu llai (a chanslo mewn rhai achosion) o hyfforddiant a datblygu i staff allweddol oherwydd bod y cyllidebau ar gyfer cohort mis Medi eisoes wedi eu penderfynu; mwy o gostau i'n sefydliadau AU ar ôl i lawer o bartneriaid fuddsoddi cryn amser mewn cyd-gynhyrchu rhaglenni i gyd-fynd â'r peilot; ynghyd â nerfusrwydd a llai o awydd ymgysylltu mewn cynlluniau peilot tebyg yn y dyfodol.

Rhaglen Ddiploma Ôl-Radd mewn Nyrsio Oedolion gan Brifysgol Bangor, yw'r cwrs cyntaf o'i fath yng Ngogledd Cymru. Mae'n cynnig cwrs carlam dwy flynedd i gofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, i raddedigion diweddar mewn gwyddorau bywyd a chymdeithasol. Mae'r cwrs ôl-radd newydd yn cwrdd ag angen cynyddol yn y rhanbarth gan adlewyrchu bod 'Iechyd a Gofal Cymdeithasol' yn sector twf yng Nghynllun yr RSP, ar sail galw, ac yn adeiladu ar y bartneriaeth â Betsi Cadwaladr i ddarparu cyrsiau meddygol newydd o 2019 ymlaen.

Yn 2017-18 mae'r RSP wedi cefnogi a chyfrannu mewnbwn uniongyrchol i Grŵp Ffocws Sgiliau Addysg Uwch trawsffiniol wedi'i gadeirio gan yr Athro Maria Hinfelaar o Brifysgol Glyndŵr Wrecsam. Ar sail y gwaith hwn gan brifysgolion Bangor, Glyndŵr Wrecsam a Chaer, yn defnyddio'r Cynllun Sgiliau Rhanbarthol fel templed, cyflawnwyd dadansoddiad aml-flwyddyn manwl o ganlyniadau pwnc a chyrchfannau swydd graddedigion yn erbyn y Cynllun Sgiliau Rhanbarthol.

Bydd ymgysylltu â chyflogwyr mewn digwyddiad cychwynnol a gynhaliwyd yn Moneypenny yn cael ei ddatblygu a'i drafod ymhellach mewn Uwch-gynhadledd Sgiliau ac Arloesi drawsffiniol, gyda chymorth gan yr RSP ac mewn cydweithrediad â Chynghrair Merswy Dyfrdwy, sydd i'w chynnal yn yr Hydref 2018 i drafod materion fel cymorth ar gyfer 'cyfalaf dynol'; gan arddangos arferion gorau o ran y cydweithredu sy'n digwydd rhwng diwydiant, academia a'r gymuned ehangach i gefnogi'r agendâu datblygu rhanbarthol; a sut y gall sefydliadau AU hyrwyddo sgiliau mewn economi sy'n cefnogi'r cysyniad yn ymwneud â 'Lle' a 'strategaethau diwydiannol lleol'.

## Adran 19: Tueddiadau a Heriau Galwedigaethol

Un o'r tueddiadau mwyaf arwyddocaol sy'n wynebu Gogledd Cymru yw sut i gynyddu uchelgais unigolion, cyflogwyr a chymunedau ymhellach o ran dyheu am wella eu sgiliau a'u cymwysterau'n briodol i ateb y galwadau presennol ac i ddod gan yr economi.

Os ydym am ddileu'r bwlch sgiliau a chymwysterau sy'n bodoli rhwng Cymru a gweddill Ewrop ar hyn o bryd, a chynnig cyfleoedd mwy cyfartal i bobl anabl, pobl sydd y tu allan i'r farchnad lafur ar hyn o bryd neu sydd wedi ymddieithrio'n hirdymor, mae angen mwy o eglurder ar bawb drwy ddulliau a llais cyffredin fel y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i hyrwyddo cyfleoedd a llwybrau at gyflogaeth ymhellach ac i ddatblygu a hyrwyddo sgiliau ychwanegol er mwyn cynnal ein cymhwysedd digidol fel rhanbarth mewn ymateb i fwy o awtomeiddio a Diwydiant 4.0.

Fodd bynnag, un o'r pethau pwysicaf sydd angen i ni fel rhanbarth ei wneud i ymateb i'r tueddiadau galwedigaethol cyffredinol yw uwchsgilio a pharatoi pobl am swyddi y gwyddom fydd yno yn y dyfodol; a pheidio â chodi dyheadau pobl a hap-fuddsoddi mewn darpariaeth, gyda'r risg y bydd pobl yn ymddieithrio a chael eu dadrithio yn y tymor byr i ganolig. Dylai darpariaeth y rhanbarth i gefnogi'r cyflenwad sgiliau a chyflogaeth fod fel catalydd mewn ymateb i alw hysbys.

Yng Ngogledd Cymru, lle'r ydym wedi adnabod ein tri sector allweddol a phum sector twf, rydym wedi gweithio â phartneriaid yr RSP a chyrff cynrychioli diwydiant i ddarogan a chadw llygad ar y tueddiadau presennol a disgwyliedig o ran datblygiadau sgiliau a chyflogaeth yn y sectorau hyn - o gofio bod llawer ohonynt yn gyfunol yn rhan o'r economi sylfaenol sy'n cyfateb i 41% o'r boblogaeth weithio bresennol yng Ngogledd Cymru.

I ategu'r data Dyfodol Gwaith hyd at 2024, mae'r rhanbarth wedi adnabod cynnydd yn y galw presennol a disgwyliedig am alwedigaethau lefel uwch fel rheolwyr, swyddi proffesiynol a swyddi proffesiynol cysylltiol yn y sector Ynni ac Amgylchedd; gyda sir Gwynedd yn gweld y gyfran fwyaf o dwf swyddi yn y sector hwn o bron i 38% dros y pum mlynedd diwethaf, gyda Chonwy a Sir Ddinbych yn agos iawn ati ar 37%.

Er bod galwedigaethau a chrefftau medrus yn hawlio'r gyfran fwyaf o gyflogaeth yng Ngogledd Cymru o hyd, mae galw cyson am alwedigaethau lefel isel fel gweithwyr proses, peiriannau a pheirianwaith, ac am alwedigaethau elfennol, a byddwn yn eu hyrwyddo ymhellach unwaith y bydd prosiectau fel adeiladu Wylfa Newydd yn dechrau. Ond eto, mae'r cynnydd mewn awtomeiddio ac effaith Brexit pe bai angor-gwmnïau allweddol yn dewis gadael y DU a Gogledd Cymru, yn cyflwyno risg i'r galwedigaethau hyn.

Gwyddom yn dda eisoes o'n Cynlluniau Sgiliau blaenorol ac o ymgysylltu'n barhaus â chyrff diwydiant cenedlaethol fel ECITB, CITB ac FMB Cymru, gyda phrosiect adeiladu Wylfa Newydd ar y gorwel, ein bod yn wynebu prinder rolau a sgiliau allweddol fel sgaffaldwyr a gosodwyr dur; ond byddwn hefyd yn gweld bylchau mewn rolau cyffredinol fel seiri coed, trydanwyr, bricwyr a staff peirianneg wrth i weithwyr symud ac adleoli o rannau eraill o'r rhanbarth. Fodd bynnag, byddwn yn gweld mwy o alw am rolau medrus lefel uwch fel peirianwyr sifil, syrfewyr a rolau rheoli prosiect a goruchwylio cysylltiedig ar gyfer y sector lle bydd angen cymwysterau QCF lefelau 4-8.

Mae'r newid yng nghyfansoddiad galwedigaethau'r diwydiannau creadigol rhwng 1994 a 2024 yn dangos twf sylweddol mewn galwedigaethau lefel uchel fel rheolwyr, gweithwyr proffesiynol a gweithwyr proffesiynol cysylltiol. Mae'r rhan fwyaf o weithwyr y sector hwn yn fedrus iawn ac wedi eu haddysgu i lefel gradd, ac wrth ddod yn gynyddol fwy symudol a hefyd yn gallu gweithio o'r cartref, rydym yn parhau i weld cynnydd cyson o fewn y sector yn y nifer sy'n hunan-gyflogedig ac yn gweithio o bell, wrth i gyflogwyr digidol a chyfryngau sefydledig yng Ngogledd Cymru barhau i ddenu a chefnogi datblygiad gweithwyr newydd – ac yn defnyddio eu sgiliau digidol a chreadigol i dyfu eu hallbwn a'u cyfleoedd busnes ymhellach. Mae datblygiadau pellach mewn canolfannau rhagoriaeth creadigol sefydledig fel Theatr Clwyd sydd â chynlluniau i ehangu i greu unedau deori ar gyfer busnesau newydd, a datblygiadau diweddar fel Pontio ym Mangor, i gyd yn cadarnhau ymhellach y duedd gynyddol gyda'r sector hwn ar draws y Gogledd – gan hefyd hyrwyddo pwysigrwydd yr iaith Gymraeg gyda llawer iawn o'u hallbwn.

Un o'n sectorau twf mwyaf proffil uchel sy'n wynebu heriau o ran recriwtio a chadw staff a hyrwyddo gwael yw Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Drwy weithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae'r RSP wedi gallu casglu a dadansoddi gwybodaeth sy'n dangos fod bron i 4,000 o swyddi gwag ar gyfer staff iechyd proffesiynol yn y rhanbarth, ar bob lefel. Yn ogystal, mae nifer sylweddol o weithwyr yn ymwneud â braich gofal cymdeithasol y sector ehangach, y bydd angen hyfforddiant arnynt i gwrdd â gofynion cofrestru Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Gallai hyn olygu mwy o oblygiadau adnoddau i sector sydd eisoes wedi'i effeithio gan farchnad ddarparwyr fregus a gallai newid demograffeg y gweithlu.

Fodd bynnag, fel sector twf, rydym yn gweld y diwydiant, darparwyr a'r trydydd sector yn y rhanbarth yn gweithio'n gydweithredol i hyrwyddo'r gwahanol gyfleoedd yn y sector – yn enwedig mewn gofal cymdeithasol lle'r ydym yn parhau i ateb y cam-argraffiadau sydd gan bobl am natur y gwaith a'r swyddi oedd yn gysylltiedig â'r sector o'r blaen. Mae staff arweiniol yr RSP wedi mynychu cyfarfodydd gan arweinwyr sector rhanbarthol i drafod a hyrwyddo'r agenda sgiliau, ochr yn ochr â darparwyr rhanbarthol mewn cydweithrediad ag arweinwyr sector ac yn ystyried sut i hyrwyddo bod technoleg ac arloesi'n newid y sector fel bod angen mwy o rolau proffesiynol a medrus a hynny yn ei dro'n gofyn am lwybrau gyrfaol mwy pwrpasol ac wedi eu hyrwyddo'n well i ddenu a chadw mwy o weithwyr.

Dyma felly rai o'r heriau yr ydym wedi eu hadnabod, fel rhanbarth yn gweithio ar draws pob sector, gan adlewyrchu'r effeithiau i'r sectorau perthynol a chadwyni cyflenwi buddsoddiadau mawr fel Wylfa Newydd a ffactorau eraill:

- Bod angen darparu a hyrwyddo mwy ar gyrsiau niwclear tymor byr mewn Addysg Bellach
- Gyda'r ddarpariaeth WBL newydd i sgaffaldwyr eisoes ar y gweill, mae angen i ni weld cynnydd cysylltiedig mewn proffesiynau technegol i gefnogi sectorau allweddol
- Mae angen cymorth arnom i hyrwyddo a darparu STEM yn gysylltiedig ag allbynnau WBL uwch ac adeiladu ar beilot y Prentisiaethau Gradd Digidol presennol i'w ymestyn i'r sectorau peirianneg, adeiladu ac ynni.
- Yn dilyn cyhoeddi adroddiad rhanbarthol yr RSP ar Sgiliau Iaith Gymraeg yn Economi Gogledd Cymru, mae angen mwy o gymorth arnom i hyrwyddo mwy ar yr iaith fel sgil gyflogadwyedd allweddol ar draws pob galwedigaeth a sector yn y rhanbarth
- Mae angen mwy o gymorth ar gyflogwyr a darparwyr yng ngogledd-ddwyrain Cymru i ateb problemau'n ymwneud ag effaith yr Ardoll Brentisiaethau
- Mae datblygiadau diweddar o ran y ddarpariaeth newydd gan Brifysgol Bangor i'w croesawu ond mae angen hyrwyddo mwy ar gyfleoedd a datblygiad a chadw staff a recriwtiwyd o fewn Gogledd Cymru ar draws y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol ehangach yn y rhanbarth.

## Adran 20: Twf Gwyrdd

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n croesawu'r newidiadau i Ganllawiau Cymru ar ôl i ni herio nad oedd y cais gwreiddiol, sef bod yr RSP yn trafod "dull ehangach o hyrwyddo datblygu cynaliadwy a phrosiectau carbon isel" gyda chyflogwyr, yn rhan o'n cylch gwaith craidd, ei fod yn dyblygu'r hyn a wneir gan adrannau eraill Llywodraeth Cymru a'u swyddogion dynodedig, ac nad oedd gennym yr adnoddau i wneud y gwaith hwn y tu allan i'n portffolio sgiliau.

Cefnogwn y gwaith o hyrwyddo Twf Gwyrdd ac rydym yn parhau i gydnabod, fel yn ein Cynlluniau blynyddol blaenorol, bod yr agenda hon yn berthnasol i'w hyrwyddo ymhlith cyflogwyr a darparwyr gan Lywodraeth Cymru a'i swyddogion dynodedig, y byddwn yn cynnig gwybodaeth ychwanegol iddynt os bydd ar gael ac yn berthnasol i'n cylch gwaith craidd, ac o fewn ein hadnoddau prin.

O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n gyfrifol am gasglu'r data hwn ar lefel awdurdod lleol ac a ddylai fod wedi cynhyrchu enghreifftiau ac astudiaethau achos ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae'r RSP yn gorff anstatudol sy'n cynrychioli chwe awdurdod lleol, dau sefydliad Addysg Uwch a dau sefydliad Addysg Bellach y rhanbarth ac felly'n cael ei chynrychioli gan weithredoedd a thystiolaeth ei sefydliadau partner.

Mae aelodau'r RSP yn glynu wrth nifer o ymrwymiadau unigol yng nghyd-destun yr agenda datgarboneiddio, fel: diffodd goleuadau, ailgylchu, rhannu ceir, cyfarfodydd di-bapur, cyfarfodydd skype etc. Fodd bynnag, mae'r ymateb i arolwg Llywodraeth Cymru ei hun yn Rhagfyr 2017 yn awgrymu bod angen mwy o eglurder ar gyflogwyr wrth ddiffinio'r derminoleg ynghyd â mesurau cliriach i gyrchu at y nod o fod yn garbon niwtral.

Roedd nifer o'r ymatebion yng ngalwad Llywodraeth Cymru am adborth yn nodi'n glir bod angen cymhellion, cosbau a chymorth i gyflawni'r targed hwn ynghyd ag efallai ddeddfwriaeth benodol i sicrhau digon o impetws i'w ddarparu. Nid oes gan yr RSP wybodaeth na data penodol yn dystiolaeth o hyn, na'r adnoddau ychwaith i wneud y gwaith ychwanegol hwn.

Mae gan y sector cyhoeddus, wedi'i arwain gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn enwedig, rôl i'w chwarae mewn sbarduno'r farchnad am gynhyrchion sydd o fudd i'r amgylchedd, drwy eu gweithgareddau caffael. O'r trafodaethau cychwynnol sy'n parhau gyda chyflogwyr Gogledd Cymru, mae'n dod yn gynyddol fwy amlwg fod angen cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth yn well ynghylch sut i lenwi ffurflenni ar-lein a chyflwyno bidiau llwyddiannus sy'n ymgorffori elfennau'n ymwneud ag arferion amgylcheddol a thwf gwyrdd.

Y prif rwystr i weithredu er mwyn gwneud busnesau yng Ngogledd Cymru'n fwy ynni effeithlon yw gwybod o ble i gael cyngor dibynadwy ar beth fyddai'r mesurau gorau i'w cyflwyno. Gall buddsoddiadau cymharol fach mewn mesurau arbed ynni arwain at leihad dramatig mewn defnyddio a biliau ynni gan gael effaith fawr ar gostau rhedeg llawer o fusnesau bach.

Rydym yn ymwybodol fod Nwy Prydain yng Ngogledd Cymru wedi gweithio gyda Toyota Glannau Dyfrdwy i lansio aráe paneli solar yn 2015 er mwyn lleihau costau gweithgynhyrchu'r ffatri'n sylweddol, a gweithgareddau cyfochrog wedi gweld prosiectau llwyddiannus gan y sector cyhoeddus yn gosod paneli solar PV ar ben toeau ysbytai, ysgolion, colegau, prifysgolion a rhannau eraill o'r ystad gyhoeddus yng Ngogledd Cymru.

## Adran 21: Yr Iaith Gymraeg

Gogledd Cymru yw'r rhanbarth cyntaf yng Nghymru i fod wedi darparu a chyhoeddi dogfen neilltuol sy'n rhoi trosolwg manwl ar yr Iaith Gymraeg ynghyd â'i defnydd a'i hyrwyddo fel sgil gydnabyddedig yn y gweithle ac sy'n gwneud cyfraniad allweddol i'r economi leol a rhanbarthol.

Mae ein hadroddiad pwrpasol 'Yr Iaith Gymraeg yng Ngweithlu Gogledd Cymru' yn dod â'r ystadegau diweddaraf ar yr iaith Gymraeg at ei gilydd, gyda ffocws ar feysydd allweddol fel y gweithle, addysg, hyfforddiant, polisi Llywodraeth Cymru a chefnogaeth ranbarthol i'r Gymraeg fel sgil cyflogadwyedd.

Mae'r adroddiad yn cyflwyno asesiad clir o sefyllfa bresennol y Gymraeg yng Ngogledd Cymru gan adnabod bylchau yn y ddarpariaeth mewn rhai sectorau a chynnig her i bartneriaid a rhanddeiliaid yn y rhanbarth i ystyried sut i sianelu ymdrechion rhanbarthol a gweithio'n glyfrach yn y dyfodol.

Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o ddiwylliant bywiog Gogledd Cymru ar draws ei gweithleoedd, sefydliadau dysgu a bywyd pob dydd, gyda chyflogwyr yn enwedig bellach yn rhoi mwy o bwyslais ar, ac yn cydnabod pwysigrwydd sgiliau dwyieithog, yn enwedig mewn sectorau lle mae mwy o fynediad at, ac ymgysylltu gyda'r cyhoedd.

Yng Ngogledd Cymru, y Gymraeg yw'r iaith gyntaf a ddefnyddir mewn llawer o weithleoedd yn barod ac rydym yn parhau i weld galw am ddefnyddio mwy ar yr iaith mewn llawer o'r sectorau twf a nodir yn ein Cynllun Sgiliau – bwyd a diod, twristiaeth a lletygarwch, iechyd a gofal cymdeithasol, a chreadigol a digidol. Mae'r iaith ym mhob un o'r sectorau hyn yn helpu i gyfrannu hwb economaidd allweddol gan gryfhau'r ymgysylltu â chleientiaid a chwsmeriaid a hyrwyddo cymunedau cryfach.

Yng Ngogledd Cymru, mae pob un o'n darparwyr Addysg Uwch a Phellach yn parhau i gynnig nifer gynyddol o'u cyrsiau, yn alwedigaethol ac achrededig, drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae cyrff cenedlaethol eraill fel NTFW a'u rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant preifat yn y rhanbarth yn gweithio i hyrwyddo dysgu seiliedig ar waith drwy gyfrwng y Gymraeg, gyda hyfforddiant, adnoddau a chymorth gwell ar gael. Fodd bynnag, mae sgiliau dwyieithog tiwtoriaid ac aseswyr i uwchsgilio a hyfforddi ein gweithlu'n broblem fydd yn gwaethygu heb fwy o gymorth.

Un o amcanion yr adroddiad yw hwyluso ymdrechion rhanbarthol a mwy cydweithredol o gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gan nodi'n glir (wele'r atodiad) y trosolwg presennol ar ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg ar draws addysg (ysgolion, colegau a phrifysgolion); dysgu seiliedig ar waith (prentisiaethau a hyfforddiant); ac yn y gweithle, ar sail mewnbwn a thystiolaeth uniongyrchol gan gyflogwyr ar draws Gogledd Cymru.

Ar 11 Ebrill 2018 ym Mhorth Eirias ym Mae Colwyn, cynhaliodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol lansiad llwyddiannus o'r adroddiad 'Yr Iaith Gymraeg yng Ngweithlu Gogledd Cymru', gyda rhanddeiliaid a gyfrannodd at yr adroddiad hefyd yn bresennol yn cynnwys GwE, Comisiynydd y Gymraeg, Horizon Nuclear Power, Menter a Busnes, Griffiths Engineering, Gyrfa Cymru, NTfW, Heddlu Gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Zip World, Harlech Frozen Foods ac Uned Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Digwyddiad ymgynghorol oedd hwn gyda chanlyniadau ac argymhellion penodol a bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn parhau i werthuso a gweithredu pob un, fel y bo'n ofynnol, mewn partneriaeth a thrwy ymgynghori.

## Adran 22: Casgliadau ac Argymhellion

Mae partneriaid ar draws Gogledd Cymru eisoes wedi gweld proses o newid ac ymateb i Gynlluniau Sgiliau a Chyflogaeth y tair blynedd diwethaf sy'n golygu y gallwn, fel rhanbarth, ddangos yn glir yr ymgysylltu a'r ymateb i'n hagenda sgiliau gyffredin sy'n cyplysu i'r galwadau a'r cyfleoedd economaidd.

O ganlyniad i'r cynnwys a nodir yn yr adroddiad hwn, bydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru'n parhau i gefnogi a dylanwadu ar Weledigaeth Dwf Gogledd Cymru a'i ffocws ar ddatblygu sgiliau fel ffactor hollbwysig i gyflawni'r amcan o 'waith boddhaus', drwy gynyddu dysgu sgiliau gydol oes er mwyn gwella cynhyrchedd a chynaliadwyedd busnesau a hefyd drwy gefnogi'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer digideiddio ac awtomeiddio i helpu i wella amodau gwaith a chyflogadwyedd gweithwyr.

Yn gyson â'n Cynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd Rhanbarthol 2017 ar gyfer Gogledd Cymru, rydym yn parhau i hyrwyddo mai'r brif her hirdymor o ran sgiliau a chyflogaeth yw sut y mae ateb y bwlch o ran gweithwyr cyfnewid yn hytrach na'r bwlch sgiliau, ac yn parhau i hyrwyddo ymwybyddiaeth well o sgiliau digidol ar draws pob sector a galluogi hygyrchedd i bob cohort o'r farchnad lafur, yn bresennol a disgwyliedig, at lwybrau gyrfaol cynaliadwy.

Gwyddom felly mai'r prif heriau a gofynion y mae angen i Ogledd Cymru eu hateb yw:

| |
|---|
| **Gweithlu sy'n heneiddio gyda sgiliau'n diflannu wrth i bobl ymddeol.** |
| **Bod angen uwchsgilio'r gweithlu presennol a darparu mwy o bwyntiau mynediad i weithwyr iau.** |
| **Bod angen cyfateb y cyfleoedd hyfforddiant i'r swyddi sydd ar gael, e.e. STEM, digidol, awtomeiddio etc.** |
| **Bod angen cydgysylltu'r gwasanaethau gyrfaoedd a chynghori i'r prosiectau mawr sydd ar y gorwel er mwyn sicrhau'r gwaddol gorau i'r rhanbarth.** |

Yn 2019 felly byddwn yn cyhoeddi Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol tair blynedd ar gyfer Gogledd Cymru yn rhoi ffocws clir a mwy hirdymor i'r rhanbarth tan 2022, gan ymgynghori'n eang arno fel rhan o'i baratoi, ei gytuno a'i gymeradwyo gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarth a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ac a fydd yn asio'n dynn i ddarparu a gweithredu prosiectau a mesurau Bargen Twf y Gogledd, a hefyd yn rhoi sylw i broblemau mwy hirdymor yn ymwneud â phan ddaw ein prosiectau sgiliau gyda chyllid rhanbarthol Ewropeaidd i ben erbyn 2022-23.

Yn ystod tair blynedd y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol hwn ar gyfer Gogledd Cymru, byddwn yn gallu monitro cynnydd y gweithredu allweddol yn effeithiol, adnabod heriau i wneud cynnydd ac yn gallu gweithio'n fwy effeithiol ar weledigaeth fwy hirdymor y bydd ein partneriaid yn elwa ohoni wrth iddi gynnig eglurder gwell nad yw'r broses flynyddol bresennol yn ei roi.

Mae'r dyheadau a ystyriwyd eisoes ar gyfer yn ein dogfen tair blynedd 2019-22, sydd i'w chyhoeddi yn yr Hydref 2019, yn adeiladu ar y gwaith sylweddol a wnaed yng Nghynllun 2017 a'r penawdau a nodir yn yr adroddiad cryno hwn fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r meysydd y bwriedir rhoi ffocws arnynt yn y dyfodol yn cynnwys y meysydd a'r materion canlynol:

- Cefnogi ein darparwyr colegau addysg bellach, prifysgolion a dysgu seiliedig ar waith ar draws Gogledd Cymru i adnabod cyfleoedd cyllido newydd ar ôl Brexit i ddarparu ymchwil ac arloesi pwrpasol sy'n cynorthwyo cyflogwyr a'u staff, ac wedi'i gyplysu i'r galwadau economaidd a sgiliau ar gyfer ein rhanbarth
- Gweithio gyda'n darparwyr addysg ar bob lefel i hyrwyddo mwy o gyflogadwyedd yn y gweithlu ar draws y rhanbarth yn y dyfodol, sy'n cyd-fynd â'r agenda genedlaethol Cymru'n Gweithio ond hefyd yn adlewyrchu ein hanghenion neilltuol yn gysylltiedig ag effaith prosiectau fel Wylfa Newydd a dadleoli llafur
- Adeiladu ar gyfleoedd a gyflwynir gan raglenni fel y Gronfa Datblygu Sgiliau i weithio'n gyfunol fel rhanbarth i gefnogi cyfranogiad, cwblhau a datblygiad, yn enwedig ymhlith grwpiau wedi eu tangynrychioli, i gynnig mynediad pellach at ddysgu gydol oes ac yn enwedig yng nghyswllt sgiliau technegol i oedolion sy'n dysgu
- Datblygu gwaddol ein prosiectau sgiliau cyllid Ewropeaidd yn y rhanbarth sy'n cefnogi'r bobl hynny sydd bellaf o'r farchnad lafur gyda phethau fel anableddau ac iechyd meddwl a chorfforol eraill, drwy helpu i ddileu'r rhwystrau i gyflogaeth fydd yn helpu pawb i ddod o hyd i swyddi da a chynaliadwy yn y rhanbarth
- Parhau i lynu wrth Weledigaeth Dwf Gogledd Cymru drwy gefnogi darparu sgiliau fel ein bod, fel rhanbarth, yn dod yn un o'r ardaloedd mwyaf blaenllaw yn y DU am gynhyrchu ynni a buddsoddi mewn cadwyni cyflenwi cysylltiedig ag ynni, gydag arbenigedd mewn prosesau a thechnolegau carbon isel, a manteisio hefyd ar y rhwydwaith cryf o angor-gwmnïau sydd â phroffil rhyngwladol er mwyn creu clwstwr o gwmnïau uwch-weithgynhyrchu
- Rhoi cymorth pellach i ddatblygu canolfannau rhagoriaeth ar gyfer y sectorau allweddol a thwf a nodir yng Nghynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol 2017, a'r cyfleoedd a gyflwynir ganddynt i helpu'r farchnad lafur bresennol a disgwyliedig i gyfrannu at ragoriaeth ddigidol a thechnoleg flaenllaw ar gyfer eu sectorau
- Parhau i ddarparu rôl ac effaith Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru o gefnogi ein partneriaid fel rhan o weledigaeth gysylltiedig i gwrdd â gofynion sgiliau presennol a disgwyliedig ein rhanbarth, sy'n hyrwyddo anghenion a galwadau'r sector preifat a gyda chymorth gan ein darparwyr i uwchsgilio ein cyflenwad llafur presennol, ac yn y dyfodol, drwy fwy o hygyrchedd, cynhwysedd ac ymwybyddiaeth ddigidol